

# Y system anghenion dysgu ychwanegol:

# Cynnydd ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol o ran cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

**Rhagfyr 2024**

Estyn

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


| | |
| --- | --- |
| **Crynodeb gweithredol ac argymhellion** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **4** |
| **Cefndir** | **4** |
| **Addysg gynhwysol a dyletswyddau ar ysgolion a lleoliadau** | **6** |
| **Strategaethau llwyddiannus i gefnogi dysgu disgyblion ag ADY** | **9** |
| **Darpariaeth cyfrwng Cymraeg** | **39** |
| **Arweinyddiaeth effeithiol o ran ADY** | **45** |
| **Dulliau a sail y dystiolaeth** | **53** |
| **Geirfa** | **55** |
| **Cyfeiriadau** | **56** |

## Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried pa mor dda y mae'r lleoliadau nas cynhelir a ariennir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir a gymerodd ran yn yr adolygiad yn gweithredu ac yn ymgorffori agweddau ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ADYTA) a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cysylltiedig. Mae hefyd yn ystyried pa mor dda y mae awdurdodau lleol wedi cefnogi ysgolion. Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar ein canfyddiadau o'r adolygiad thematig cyntaf Y system anghenion dysgu ychwanegol (Estyn, 2023) ac yn nodi arfer effeithiol i gefnogi addysg gynhwysol, datblygu strategaethau i gefnogi disgyblion ag ADY, ymestyn cymorth cyfrwng Cymraeg a chryfhau dysgu proffesiynol, sicrhau ansawdd a rolau'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY) a Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (SAADYBC).

Mae ein canfyddiadau wedi'u seilio ar ymgysylltu â sampl o wyth lleoliad nas cynhelir, 11 ysgol gynradd, saith ysgol uwchradd a dwy ysgol bob oed. Cynhaliwyd naw o'r rhain trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae wyth o'r ysgolion, yn cynnwys un ysgol cyfrwng Cymraeg, yn lletya darpariaeth dosbarth arbenigol yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag ADY. Hefyd, defnyddiom dystiolaeth o'n gweithgarwch arolygu parhaus ac o drafodaethau rhwng ein harolygwyr cyswllt awdurdod lleol a swyddogion awdurdodau lleol. Ymhellach, mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o drafodaeth gyda grŵp ffocws Swyddogion Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (SAADYBC). Buom yn holi barn rhieni a gofalwyr ynglŷn â'u profiadau.

Mae gweithredu ac ymgorffori diwygio ADY wedi bod yn gamp sylweddol i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau. Yn ystod ein hymweliadau ac yn ein cyfarfodydd â rhanddeiliaid, nododd y tîm arolygu'n gyson yr ymrwymiad cryf a'r gwydnwch a ddangosir gan staff mewn awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau. Bu staff yn gweithio'n ddiwyd i gynorthwyo plant a phobl ifanc ag ADY yng nghyd-destun heriau parhaus. Roedd y rhain yn cynnwys effaith barhaus y pandemig ar les, heriau â phresenoldeb, y cynnydd a adroddwyd ond nas gwiriwyd yn nifer y plant a'r bobl ifanc ag anghenion cymhleth, yn ogystal â phwysau o ran y gyllideb a'r gweithlu. At ei gilydd, roedd gofynion diwygio ADY yn dechrau sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY ledled y wlad. O ganlyniad, lle'r oedd diwygio ADY wedi cael ei weithredu'n llwyddiannus, roedd llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn cychwynnol. Fodd bynnag, nid oedd gweithredu diwygio ADY yn gyson, ac o ganlyniad, nid oedd anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn cael eu cefnogi'n ddigon da bob amser. Ymhellach, roedd mwyafrif yr ysgolion a'r awdurdodau lleol yn y sampl wedi dechrau cryfhau sicrhau ansawdd prosesau a darpariaeth ADY. Mynegwyd pryderon gan lawer o arweinwyr am eu gallu i barhau i gyflwyno'r gwasanaethau ADY angenrheidiol, wedi i gyllid ychwanegol ddod i ben.

Mae ein canfyddiadau'n dangos bod arweinwyr a staff mewn llawer o ysgolion a lleoliadau wedi dechrau datblygu diwylliant ac arfer gynhwysol. Roedd yr ysgolion a'r

lleoliadau hyn yn canolbwyntio'n dda ar ddysgu a lles pob un o'r disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid oedd gweledigaeth gynhwysol ac addysgu a dysgu pwrpasol wedi'u hanelu at ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion yn ddigon effeithiol. Ar sail ein trafodaethau ag arweinwyr ysgolion, fel rhan o'r adolygiad hwn, roedd arweiniad awdurdodau lleol ar gyfer gwella ansawdd addysgu a dysgu cynhwysol yn amrywiol ledled Cymru. Hyd yn oed yn yr achosion mwyaf effeithiol, roedd ysgolion yn cydnabod mai megis dechrau datblygu oedd y cymorth ac arweiniad hwn.

At ei gilydd, roedd nifer y disgyblion y nodwyd bod ganddynt ADY neu anghenion addysgol arbennig (AAA) ar gofrestrau ysgolion wedi parhau i ostwng. Fodd bynnag, roedd nifer y disgyblion yr oedd eu darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) / darpariaeth addysgol arbennig (DAA) wedi'i nodi mewn cynllun statudol, naill ai trwy gynllun datblygu unigol (CDU) neu ddatganiad o AAA, wedi parhau i gynyddu. Yn ychwanegol, roedd cynnydd sylweddol yn nifer y cynlluniau datblygu unigol (CDUau) a oedd yn cael eu cynnal gan ysgolion. Ar draws awdurdodau lleol, roedd anghysondebau'n parhau o ran dehongli'r Cod ADY ac yn yr ymagweddau dilynol at CDUau a gynhelir gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

At ei gilydd, roedd ysgolion a lleoliadau a gymerodd ran yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r ddarpariaeth y maent yn ei threfnu ar gyfer disgyblion ag ADY. Fodd bynnag, roedd y graddau y caiff y ddarpariaeth ei dosbarthu'n DDdY yn parhau i fod yn aneglur. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion ac awdurdodau lleol yn cytuno y byddai'n fuddiol egluro DDdY ar lefel genedlaethol.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn yn cydnabod rôl estynedig ac arbenigol y CydADY o dan y Ddeddf ac yn croesawu atebolrwydd cynyddol a chyfrifoldeb strategol y rôl. Lle'r oedd rôl y CydADY yn fwyaf effeithiol, roedd yn rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth, ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY, a'u deilliannau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, nid oedd Cydlynwyr ADY yn cael eu cynnwys yn llawn mewn dylanwadu ar gyfeiriad strategol a phroses yr ysgol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Dyma yw'r tro cyntaf i ni adolygu cynnydd lleoliadau nas cynhelir a ariennir a rôl Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (SAADYBC) mewn cysylltiad â diwygio ADY. Roedd llawer o'r lleoliadau nas cynhelir a ariennir yr ymwelom â nhw fel rhan o'r adolygiad hwn yn darparu profiadau dysgu effeithiol ar gyfer plant ag ADY. At ei gilydd, roeddent yn cynllunio'n ofalus i deilwra profiadau dysgu i fodloni gofynion unigol pob plentyn, yn cynnwys y rhai ag ADY. Hefyd, roedd rôl y SAADYBC wedi hen ennill ei phlwyf ledled Cymru. At ei gilydd, roedd y swyddogion hyn yn gweithio'n effeithiol i gynorthwyo rhieni a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar i sicrhau cymorth buddiol ac amserol ar gyfer plant iau ag ADY sy'n dod i'r amlwg neu ADY wedi'i nodi.

Nid oedd y graddau y mae awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau yn cynllunio ac yn darparu cymorth teg ar gyfer darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg wedi'u datblygu'n ddigonol o hyd. Mae hyn wedi cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ond roedd heriau sylweddol yn parhau o ran cyfraddau recriwtio a chadw mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ogystal â darparu asesiadau ac adnoddau safonedig cyfrwng Cymraeg.

Mae ein hadroddiad yn nodi ystod o arfer effeithiol, gan gynnwys mewn meysydd a oedd yn parhau i fod yn heriol, fel cyflwyno cyfrwng Cymraeg. Rydym hefyd yn gwneud argymhellion.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion a lleoliadau:**

A1 Sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn diwallu anghenion **pob** disgybl ac yn cefnogi addysg gynhwysol.

**Dylai ysgolion:**

A2 Sicrhau bod Cydlynwyr ADY yn cael eu cynnwys yn llawn mewn dylanwadu ar gyfeiriad strategol a phroses yr ysgol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

**Dylai awdurdodau lleol:**

A3 Weithio gydag ysgolion a lleoliadau i hyrwyddo addysg gynhwysol, targedu cymorth lle mae angen a chryfhau cydlynu gwasanaethau cymorth i sicrhau addysgu o ansawdd uchel ar gyfer pob un o’r disgyblion.

A4 Parhau i ddatblygu’r gweithlu, gwasanaethau dysgu proffesiynol a darpariaeth ar gyfer disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A5 Weithio gyda phob un o’r awdurdodau lleol i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gyffredin a chadarn o’r diffiniad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bod awdurdodau lleol a’u hysgolion yn cymhwyso hyn yn gyson.

A6 Parhau i ddatblygu cynllunio’r gweithlu, adnoddau a dysgu proffesiynol i sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg deg o ran ADY.

A7 Gwerthuso effaith y gweithredu a’r galw am ddarpariaeth ychwanegol ac arbenigol ar gyfer disgyblion ag ADY; dylai’r gwerthusiad hwn arwain trefniadau ariannu yn y dyfodol, gan sicrhau bod adnoddau’n diwallu anghenion a nodwyd.

## Cyflwyniad

Caiff yr adroddiad thematig hwn ei ysgrifennu i ymateb i gais am gyngor gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ei lythyr cylch gwaith at Estyn ar gyfer 2023-2024. Hwn yw'r ail adolygiad thematig ar weithredu diwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar ein canfyddiadau o'r adolygiad thematig cyntaf Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd (Estyn, 2023) ar gynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol o ran gweithredu diwygio anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ba mor dda yr oedd lleoliadau nas cynhelir a ariennir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir a gymerodd ran yn yr adolygiad yn gweithredu ac yn ymgorffori agweddau ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ADYTA) a'r Cod ADY cysylltiedig. Mae hefyd yn ystyried pa mor dda y mae awdurdodau lleol wedi cefnogi ysgolion. Hefyd, mae'r adroddiad yn nodi arfer effeithiol sydd wedi'i hanelu at gefnogi disgyblion ag ADY, yn unol â'r ddarpariaeth a gweithredu'r Ddeddf.

Amlinellir sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad mewn atodiad, ac roedd yn cynnwys ymweliadau â darparwyr, trafodaethau â staff a disgyblion, adborth gan rieni a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â thystiolaeth o'n gwaith arolygu parhaus a'n hadolygiadau o dystiolaeth ddogfennol.

Y gynulleidfa a fwriedir ar gyfer yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion a lleoliadau, awdurdodau lleol, a gwasanaethau gwella ysgolion. Gallai fod o ddiddordeb i rieni a phartneriaid perthnasol, hefyd. Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad yn cyfrannu at drafodaethau proffesiynol ar y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu a nodwyd, fel ei gilydd.

## Cefndir

Pasiwyd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ADYTA) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (a elwir yn Senedd Cymru erbyn hyn) ym mis Rhagfyr 2017 a daeth yn Ddeddf ym mis Ionawr 2018. Yn ei dogfen Rhaglen trawsnewid system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (2018a), mae Llywodraeth Cymru yn nodi:

> Bydd yn creu'r fframwaith deddfwriaethol i wella'r broses o gynllunio a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol, trwy ddull sy'n canolbwyntio ar unigolion er mwyn nodi anghenion yn fuan, rhoi system gymorth a monitro effeithiol ar waith, ac addasu ymyriadau er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r deilliannau a ddymunir.

I ddechrau, y bwriad oedd rhoi'r Ddeddf ar waith dros gyfnod o dair blynedd (2020-

2023). Daeth penodi ar gyfer tair rôl statudol i rym ym mis Ionawr 2021. Oherwydd effaith y pandemig, symudwyd y broses i nodi a chadarnhau pa blant oedd ag ADY ymlaen flwyddyn i fis Medi 2021. Ym mis Mawrth 2023, ychwanegwyd blwyddyn arall. Roedd hyn yn golygu y bydd yn awr yn cael ei rhoi ar waith dros bedair blynedd, ac yn gorffen ym mis Awst 2025.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys 11 nod, a cheir manylion amdanynt yn ein hadroddiad thematig cyntaf, sef Y system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd (Estyn, 2023). Bydd yr adroddiad hwn yn ymdrin ag agweddau amrywiol ar y nodau hynny.

1. Cyflwyno'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' (ADY)
2. Ystod oedran 0 i 25
3. Cynllun unedig
4. Cyfranogiad cynyddol plant a phobl ifanc
5. Dyheadau uchel a deilliannau gwell
6. System symlach a llai gwrthwynebol
7. Cydweithio cynyddol
8. Osgoi anghytundebau a datrys anghytundeb yn gynharach
9. Hawliau apelio clir a chyson
10. Y Cod ADY
11. System ddwyieithog

## Addysg gynhwysol a dyletswyddau ar ysgolion a lleoliadau

Mae'r bennod hon yn ystyried diffiniadau a gweithredu arfer gynhwysol mewn ysgolion a lleoliadau. Hefyd, mae'n archwilio dyletswyddau ysgolion a lleoliadau i fabwysiadu'r arferion hyn o ran nodau'r Cod ADY.

### Diffinio arfer gynhwysol

Yn ei dogfen ganllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (2016), diffiniodd Llywodraeth Cymru egwyddorion cynnwys fel a ganlyn;

> Proses sy'n rhoi i bob disgybl gyfleoedd cyffredin mewn ffyrdd sy'n berthnasol i'w hanghenion, ac sy'n sicrhau eu bod yn perthyn yn llawn i'r gymuned ysgol. Mae gofyn i bawb ymroi i fod yn rhan o'r broses gynhwysiant. Mae'n rhoi'r pwyslais ar ysgolion i addasu eu sefydliad a'u ffyrdd o ymateb i fodloni anghenion pob plentyn a pherson ifanc a gwerthfawrogi eu datblygiad ym mhob rhan o fywyd yr ysgol... Mae'n gofyn am gwricwlwm cynhwysol a mesurau i wella ymwybyddiaeth athrawon a staff eraill o ddysgu cynhwysol ac ystyriaethau cydraddoldeb.

Nododd Knight a Crick (2021) yn eu papur Inclusive Education in Wales: Interpreting Discourses of Values and Practice

> Dylai cwricwlwm cynhwysol symud oddi wrth ddull safonedig, a allai ganolbwyntio ar anghenion y dysgwr "cyffredin". Yn hytrach, dylid cynllunio cwricwlwm i gwmpasu anghenion amrywiol yr holl ddysgwyr, yn hytrach na chynnwys camau unigoledig sy'n gwneud iawn am grwpiau penodol.

### Gweithredu amgylchedd dysgu cynhwysol

Roedd arweinwyr a staff wedi creu a chynnal arfer a diwylliant cynhwysol mewn llawer o'r ysgolion a'r lleoliadau yr ymwelom â nhw. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, byddwn yn archwilio'r agweddau allweddol ar arweinyddiaeth a diwylliant cynhwysol yn fanylach. Creodd yr arweinwyr hyn amgylcheddau a oedd yn mynd ati i gefnogi dysgu'r holl ddisgyblion. Dywedodd disgyblion ag ADY yn yr ysgolion hyn wrthym fod ganddynt ymdeimlad clir o berthyn i gymuned yr ysgol, a oedd yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Roeddent yn cymryd rhan ac yn dangos diddordeb mewn gweithgareddau dysgu ochr yn ochr â'u cyfoedion, ac yn eu mwynhau. Bron ym mhob achos, sylwom fod perthnasoedd a rhyngweithio proffesiynol cadarnhaol ac ymddiriedus rhwng staff a disgyblion yn ystod gwersi a sesiynau. Roedd disgyblion ag ADY yn ymateb yn dda i ymagwedd ofalgar ac ymroddgar staff. Dywedodd disgyblion wrthym fod y perthnasoedd hyn yn allweddol i'w lles a'u cynnydd.

Yn yr achosion mwyaf llwyddiannus, roedd rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r ffordd yr oedd ysgolion a lleoliadau'n addasu dysgu i weddu i'w plentyn trwy gael gwared ar unrhyw rwystrau rhag dysgu i ddiwallu anghenion eu plentyn. Er enghraifft, rhoddodd ychydig o rieni enghreifftiau penodol o'r modd yr oedd ysgolion a lleoliadau wedi

gwella'r amgylchedd dysgu i gefnogi anghenion niwroddatblygiadol eu plentyn, er enghraifft. Fodd bynnag, ar ormod o achlysuron, mynegodd rhieni a gofalwyr rwystredigaeth ynglŷn â chyfathrebu annigonol gan ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol. Roeddent yn sôn yn aml am oedi wrth dderbyn ymatebion i'w pryderon neu'u hymholiadau, a oedd yn eu gadael yn teimlo heb gefnogaeth a heb gysylltiad â'r broses gwneud penderfyniadau ynghylch addysg eu plant.

Wrth ymateb i gwestiynau gan aelodau o'r Senedd yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Mai 2024, ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg trwy ddweud y bydd rhai plant:

> ... yn hollol iawn gydag addysgu cynhwysol da sydd wedi'i gynllunio ar gyfer eu hanghenion, ac nid yw'r ffaith fod rhywbeth yn gyffredinol yn golygu ei fod yn unffurf. Mae ynglŷn ag ymateb i anghenion plant ... Ond os oes angen cymorth ychwanegol ar blant, dyna ble mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod hynny'n digwydd, mewn gwirionedd, ac efallai bod angen ychydig bach o gymorth ychwanegol, neu efallai eu bod yn cael CDU. Dydw i ddim yn meddwl bod un math sy'n addas i bawb yn hyn o beth, ond mae gan ddarpariaeth gyffredinol rôl i'w chwarae, a siawns fod pob un ohonom ni eisiau amgylcheddau addysg gynhwysol i'n plant.

*(Ffynhonnell: Senedd Cymru, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Mai 2024)*

Adroddodd ein hadroddiad thematig Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd (Estyn, 2023) ar y dryswch ymhlith ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch terminoleg ac arfer yn ymwneud â'r ymateb graddedig i gefnogi disgyblion ag ADY. Mae termau fel cyffredinol, cyffredinol a mwy, targedig, arbenigol, ac arbenigol yn cynnwys darpariaeth amlasiantaethol, yn cael eu defnyddio'n gynyddol gan awdurdodau lleol a chan ysgolion. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'r termau hyn yn ymddangos yn y Cod ADY. Mae hyn wedi arwain at ddryswch eang a pharhaus ynglŷn â beth mae darpariaeth 'gyffredinol' yn ei olygu, sydd ar gael yn gyffredinol i bob disgybl o'r un oedran a beth yw darpariaeth ddysgu ychwanegol. Cydnabuom yn ein hymweliadau â lleoliadau, ysgolion ac awdurdodau lleol fod dealltwriaeth ar y cyd o'r termau a'r arferion hyn, a defnydd cyffredin ohonynt, yn parhau i fod yn anghyson.

## Dyletswyddau ar ysgolion a lleoliadau

Mae'r dyletswyddau ar ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod pob plentyn neu ddisgybl, ni waeth beth yw ei angen, ei gefndir neu'i allu unigol, yn cael cyfleoedd teg i gymryd rhan yn llawn yn y profiad addysgol fel ei fod yn perthyn yn llawn i gymuned yr ysgol neu'r lleoliad, wedi'u pennu'n glir yn nogfen Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (2021b). Mae'n nodi:

> mae pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY yn gyfrifol am sicrhau bod anghenion eu dysgwyr yn cael eu hadnabod a'u diwallu (tud.71)

Felly, y disgwyliad yw y dylai addysgu a dysgu gefnogi cynnydd yr **holl** ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Cymorth ac arweiniad awdurdodau lleol ar gyfer addysgu cynhwysol

Ar sail ein trafodaethau gydag arweinwyr ysgolion, yn rhan o'r adroddiad thematig hwn, roedd arweiniad awdurdodau lleol ar gyfer gwella ansawdd addysgu a dysgu cynhwysol yn rhy amrywiol ledled Cymru. Roedd llawer o ysgolion a lleoliadau wedi cael cymorth ac arweiniad buddiol gan swyddogion awdurdodau lleol i feithrin eu gallu a'u harbenigedd o fewn eu hysgolion a'u lleoliadau i gefnogi medrau iaith a chyfathrebu disgyblion, disgyblion ag awtistiaeth, a disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, er enghraifft. Rhoddwyd y cyngor a'r arweiniad hwn i ysgolion mewn amrywiaeth o wahanol fformatau, er enghraifft trwy blatfformau digidol, cyfarfodydd clwstwr a fforymau CydADY. Ochr yn ochr â thimau sefydledig, fel y gwasanaeth seicoleg addysg, roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cyflogi athrawon arbenigol a staff cymorth lefel uwch i ddarparu cymorth systemig a phwrpasol i ysgolion i wella'u harfer gynhwysol. Er enghraifft, roedd y swyddogion hyn yn cynorthwyo â datblygu ymyriadau a chymorth effeithiol, defnyddio adnoddau a chreu amgylcheddau cynhwysol. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr achosion mwyaf effeithiol, cydnabu ysgolion mai megis dechrau datblygu yr oedd y cymorth a'r arweiniad hwn.

**Datblygu ysgolion cynhwysol**

Ym Merthyr Tudful, mae'r tîm ADY wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu ysgolion cynhwysol lle mae'r holl ymarferwyr yn mynd i'r afael ag anghenion pob disgybl yn deg. Maent wedi trafod sut le dylai ysgol gynhwysol fod ac yn gosod tasgau gwaith clwstwr â ffocws bob hanner tymor ar hunanwerthuso ble mae ysgolion arni, yn eu barn nhw, sut gallant symud ymlaen a rhannu arfer dda rhwng ysgolion a chlystyrau.

Cytunodd bob un ohonynt, er mwyn bod yn ysgol gynhwysol:

- Dylai arweinydd / arweinwyr yr ysgol ddangos ymrwymiad clir i arferion cynhwysol sy'n ategu gweledigaethau a nodau'r ysgol.
- Dylai pob un o'r disgyblion a'r rhieni deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.
- Mae partneriaethau gweithio cadarnhaol rhwng gweithwyr proffesiynol, disgyblion a rhieni.
- Mae pob un o'r athrawon a'r ymarferwyr eraill yn mynd i'r afael ag anghenion pob un o'r disgyblion, ac yn eu diwallu, yn gyfartal.
- Mae arweinwyr yr ysgol yn fedrus ac yn gallu cynorthwyo staff i addysgu pob un o'r disgyblion.
- Mae gan staff ddisgwyliadau uchel ac maent yn disgwyl i bob un o'r disgyblion wneud cynnydd.
- Mae amgylcheddau'r ysgol a'r ystafell ddosbarth yn hygyrch i bob un o'r disgyblion.
- Mae llais y disgybl yn holl bwysig, ac mae disgyblion yn cymryd rhan yn llawn mewn gwerthuso pa mor dda y maent yn dysgu a sut y gellid eu cefnogi i oresgyn rhwystrau rhag dysgu.
- Mae arfer ystafell ddosbarth yn gyson o ran cefnogi addysg gynhwysol, er enghraifft trwy drefniadaeth adnoddau; cynllunio teilwredig; ardaloedd tynnu allan o wersi a mannau gweithio unigol i leihau tarfu; amserlenni gweledol;

neu fod cymorth ychwanegol ar gael gan oedolion / cyfoedion i alluogi disgyblion i fod yn annibynnol.

Caiff gweithio mewn clystyrau ei ymgorfforir ac mae'n effeithiol o ran nodi arfer dda. Erbyn hyn, mae nifer gynyddol o ysgolion yn addasu eu harlwy addysgu i ddiwallu anghenion cynyddol y disgyblion. Mae ysgolion hefyd yn datblygu'r amgylchedd dysgu, gan greu ardaloedd o fewn ysgolion prif ffrwd i allu cynorthwyo disgyblion ag ystod ehangach o anghenion dysgu.

## Strategaethau llwyddiannus i gefnogi dysgu disgyblion ag ADY

Mae'r bennod hon yn ystyried nodweddion effeithiol dysgu ac addysgu cynhwysol disgyblion ag ADY mewn lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed. Mae hefyd yn ystyried beth yw darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) ar gyfer disgyblion ag ADY ar draws ysgolion a lleoliadau.

### Addysgu a dysgu

Yn yr ysgolion a'r lleoliadau mwyaf effeithiol yn y sampl, nid oedd gwelliannau mewn addysgu a dysgu disgyblion ag ADY ar wahân i welliannau mewn addysgu a dysgu disgyblion ar draws yr ysgol neu'r lleoliad. Yn yr ysgolion a'r lleoliadau hyn, roedd darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY, gan gynnwys DDdY, yn cael ei hategu gan addysgu a dysgu o ansawdd uchel ac arfer ystafell ddosbarth sy'n gwella'n barhaus.

Yn ei adroddiad Special Education Needs in Mainstream School, nododd y Sefydliad Gwaddol Addysgol (2021a):

- I raddau helaeth, mae addysgu da ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau[1] yn addysgu da i bawb
- Gall chwilio am 'fwled hud' dynnu sylw athrawon oddi wrth y strategaethau pwerus sydd ganddynt eisoes
- Mae'r ymchwil yn awgrymu grŵp o strategaethau addysgu y dylai athrawon ystyried eu pwysleisio ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau. Dylai athrawon ddatblygu cyfres o'r strategaethau hyn y gallant eu defnyddio'n hyblyg i ymateb i anghenion yr holl ddysgwyr.
  - — grwpio hyblyg;
  - — strategaethau gwybyddol a metawybyddol;
  - — cyfarwyddyd eglur;
  - — defnyddio technoleg i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau; a
  - — sgaffaldio

[1] Anghenion addysgol arbennig ac anableddau (SEND) yw'r derminoleg a ddefnyddir yn Lloegr. Yng Nghymru, rydym yn defnyddio'r term anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae llawer o ysgolion a lleoliadau yr ymwelom â nhw fel rhan o'r adolygiad thematig hwn wedi canolbwyntio ar ddatblygu strategaethau addysgu a chyfleoedd dysgu ystyrlon a chynhwysol lle mae ymarferwyr yn mynd i'r afael ag anghenion pob un o'r disgyblion yn deg. Dywedodd arweinwyr yn yr ysgolion a'r lleoliadau hyn wrthym y bu ffocws cynyddol ar addasu a phersonoli dysgu i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY ers gweithredu'r Ddeddf ADY a'r Cod dilynol. Yn yr ysgolion a'r lleoliadau mwyaf effeithiol, roedd addysgu, dysgu ac asesu yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno gan ystyried anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn bwrpasol o'r cychwyn. Fodd bynnag, nid oedd yr arfer gynhwysol hon yn gyson ledled Cymru. O ganlyniad, nid oedd ADY disgyblion yn cael eu cefnogi'n ddigon da bob amser.

Yn ei hymateb i'r argymhellion a wnaed gan adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: [A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?](#) (2024c), cydnabu Llywodraeth Cymru:

> er bod rhai ardaloedd wedi datblygu arferion cynhwysol da, rydym yn cydnabod bod hyn weithiau'n deillio o benderfyniad unigolion yn hytrach na dull gweithredu strwythurol cyson (tud.2).

Yn yr ysgolion a'r lleoliadau mwyaf llwyddiannus yr ymwelom â nhw, roedd yr addysgu, y cwricwlwm a'r asesu yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno i ennyn diddordeb disgyblion mewn dysgu a oedd yn ystyrlon, yn berthnasol ac yn hygyrch i bawb. Er enghraifft, roedd ysgolion a lleoliadau'n datblygu perthnasoedd gweithio llwyddiannus gyda disgyblion yn seiliedig ar barch ar y ddwy ochr. Roedd athrawon yn cynllunio ar gyfer anghenion a diddordebau pob grŵp o ddisgyblion yn dda mewn ystod o gyd-destunau bywyd go iawn. Roeddent yn asesu cynnydd pob un o'r disgyblion yn gywir, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r camau nesaf mewn dysgu. Roeddent yn rhoi adborth pwrpasol, amserol ac ystyrlon, a oedd yn symud y dysgu ymlaen ar gyflymdra priodol, gan sicrhau bod y disgyblion yn llwyddiannus yn eu dysgu. Pan roedd gan ddisgyblion ADY, roedd athrawon yn cynllunio dysgu'n ofalus i gyflwyno'r DDdY gytûn. Roedd hyn yn cynnwys ymgorffori gweithgareddau corfforol rheolaidd neu ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu, er enghraifft.

Mewn llawer o achosion, roedd ysgolion a lleoliadau yn addasu'r addysgu i ymateb i anghenion disgyblion a rhwystrau posibl rhag dysgu. Roedd ysgolion a lleoliadau effeithiol yn cyflwyno set strwythuredig a chyson o strategaethau ystafell ddosbarth yn llwyddiannus, a oedd nid yn unig yn sgaffaldio ac yn cefnogi dysgu disgyblion ag ADY, ond a oedd o fudd i bob un o'r disgyblion. O ganlyniad, roedd disgyblion ag ADY yn elwa ar strwythur ac ymagweddau cyson a chyfarwydd ac yn gwneud cynnydd effeithiol ar draws ystod o fedrau o'u mannau cychwyn cychwynnol.

Hefyd, roedd staff yn yr ysgolion hyn yn gweithio'n agos gyda rhieni a gofalwyr ac asiantaethau eraill i ddatblygu proffiliau un dudalen cefnogol ar gyfer disgyblion ag ADY. Yn yr achosion hyn, roedd y proffiliau un dudalen yn sicrhau ffocws parhaus ar ddarpariaeth a chynnydd unigol ac yn hwyluso ymyrraeth gynnar, yn ôl yr angen. Yn ychwanegol, roedd cyfarfodydd adolygu CDU yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn sicrhau ymagwedd gynhwysol a chydlynus at ddarparu cymorth.

## Rhannu gwybodaeth am ddisgyblion ag ADY i gefnogi addysgu a dysgu


Roedd llawer o ysgolion a lleoliadau yr ymwelom â nhw yn cyfleu gwybodaeth werthfawr i staff addysgu am ddisgyblion ag ADY mewn ystod o wahanol ffyrdd. Er enghraifft, roeddent yn rhoi cylchlythyrau a bwletinau rheolaidd i staff yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion ag ADY, ac yn awgrymu dulliau a strategaethau addysgu a dysgu effeithiol i gefnogi disgyblion ag ystod o wahanol ADY. Roedd llawer o ysgolion wedi datblygu eu platfformau digidol ADY dynodedig mewnol eu hunain. Defnyddiwyd y platfformau hyn i rannu adnoddau canolog i gefnogi addysgu a dysgu effeithiol a oedd yn cefnogi pob disgybl. Yn ychwanegol, roedd staff o ystod o asiantaethau arbenigol yn darparu cyngor a deunyddiau buddiol i boblogi'r adnoddau hyn. O ganlyniad, yn yr ysgolion hyn, roedd staff yn adnabod ac yn deall y disgyblion yn dda ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth a roddwyd iddynt er mwyn teilwra cyfleoedd dysgu i ennyn diddordeb disgyblion a sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd effeithiol.

**Dogfennau rhesymeg dosbarth**

Yn **Ysgol Uwchradd Whitmore,** mae pob un o'r athrawon yn paratoi dogfennau rhesymeg dosbarth ar gyfer pob grŵp addysgu. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys gwybodaeth am gyrhaeddiad presennol a disgwyliedig disgyblion, yn ogystal â darparu strategaethau addysgu wedi'u haddasu i gefnogi pob disgybl ag ADY ym mhob dosbarth. Caiff y strategaethau hyn eu llunio o ystod o ffynonellau, yn cynnwys CDUau a phroffiliau un dudalen disgyblion. Caiff ansawdd dogfennau rhesymeg dosbarth ei sicrhau gan arweinwyr yn yr ysgol i werthuso'r strategaethau cynlluniedig.

Mae arweinwyr yn **Ysgol Gymunedol Porth** ac **Ysgol y Moelwyn** wedi cynorthwyo staff i ddeall sut i ddehongli a defnyddio canlyniadau asesiadau gwaelodlin gwybyddol i addasu eu cynllunio a'u haddysgu. Maent wedi darparu astudiaethau achos defnyddiol ar sut mae'r canlyniadau hyn yn effeithio ar ddysgu'r disgyblion ac wedi awgrymu ymagweddau posibl at gefnogi arfer athrawon.

**Arddangosfa yn Ysgol Uwchradd Caerdydd**




Mae **Ysgol y Tymbl** wedi'i ffedereiddio ag ysgol gynradd leol arall. Mae'r ffederasiwn wedi sefydlu platfform digidol canolog, sef 'y cwpwrdd', er mwyn i staff allu mynd at yr holl wybodaeth a dogfennau perthnasol am ddisgyblion ag ADY. Mae hefyd yn cynnwys adnoddau buddiol i gefnogi arfer.

## Disgwyliadau uchel a realistig i bawb

Roedd ysgolion effeithiol yr ymwelom â nhw wedi ystyried yn ofalus beth mae addysgu a dysgu effeithiol yn ei olygu i ddiwallu anghenion disgyblion unigol. Roedd gan yr ysgolion hyn ddisgwyliadau uchel, ond realistig, o'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY. Dyma yw barn Hattie (2023):


> Y peth pwysicaf i athrawon ei wneud yw cael disgwyliadau uchel ar gyfer yr holl fyfyrwyr. Mae hyn yn golygu peidio â labelu myfyrwyr (fel "peniog", "rhai sy'n cael trafferthion", "ADHD" neu "awtistig"), oherwydd gall hyn arwain at ddisgwyliadau is ymhlith athrawon a myfyrwyr, ond ystyried myfyrwyr yn ddysgwyr sy'n gallu gwneud cynnydd cyflym yn eu dysgu
> John Hattie Visible Learning; The Sequel 2023

## Arfer wedi'i llywio gan ymchwil

Roedd ychydig o ysgolion a lleoliadau'n gwneud defnydd gwerthfawr a phriodol o ganfyddiadau ymchwil i fyfyrio ar eu harfer a mireinio'u repertoire a'u hymagweddau at anghenion esblygol disgyblion. Bu staff yn yr ysgolion a'r lleoliadau hyn yn cydweithio i gynllunio strategaethau addysgu ysgol gyfan cynhwysol. Yn yr ysgolion

hyn, roedd dealltwriaeth glir o'r modd yr oedd y dulliau addysgu hyn yn mireinio ac ymestyn arfer ac yn cefnogi pob un o'r disgyblion.

Mae **Ysgol Uwchradd Caerdydd** wedi datblygu'r defnydd o ddulliau addysgu a dysgu ysgol gyfan cyson, sy'n cefnogi pob un o'r disgyblion yn dda, yn cynnwys y rhai ag ADY. Mae'r dulliau hyn yn blaenoriaethu ymgysylltiad â dysgu, modelu rôl, meddwl dwfn a her uchel i'r holl ddisgyblion. Mae'r dulliau hyn yn darparu iaith ar y cyd ar draws yr ysgol i siarad am ddysgu ac addysgu. Bu arweinwyr yn yr ysgol yn cyflwyno a dadansoddi'r technegau'n raddol ac yn archwilio effaith pob un o'r dulliau. Treuliodd arweinwyr amser yn modelu a rhoi'r technegau mewn cyd-destunau sy'n benodol i bwnc, ac yn ystyried sut maent yn gweithio ar bob lefel ac ar gyfer pob math o ddisgyblion.




Mae'r dull ysgol gyfan llwyddiannus hwn yn diwallu anghenion disgyblion yn effeithiol ac mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn cychwynnol.

## Trefniadau grwpio

Roedd gan ysgolion yr ymwelom â nhw ystod o wahanol drefniadau grwpio i gefnogi pob un o'r disgyblion ac ymateb i anghenion disgyblion unigol. Roedd hyn yn cynnwys y disgyblion hynny ag ADY.

**Addysgu gallu cymysg**


Yn **Ysgol Uwchradd Whitmore**, caiff addysgu gallu cymysg ei ddefnyddio ar draws yr ysgol i feithrin amgylchedd ystafell ddosbarth cynhwysol lle gall pob un o'r disgyblion ffynnu, ni waeth beth yw eu gallu. Mae'r dull hwn yn hyrwyddo profiad dysgu amrywiol i bawb am ei fod yn annog disgyblion i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'r dull hwn, wedi'i gyfuno â model Addysgu a Dysgu Ysgol Uwchradd Whitmore, yn helpu mynd i'r afael ag anghenion unigol trwy holi, modelu a sgaffaldio. Mae addysgu gallu cymysg nid yn unig yn cefnogi disgyblion ag ADY yn yr ysgol â'u cyrhaeddiad academaidd, ond hefyd yn cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac empathi trwy gydweithio.

Mewn ychydig o ysgolion uwchradd yn y sampl, roedd disgyblion ag ADY a heb ADY yn defnyddio darpariaeth ddysgu gyffredinol fuddiol mewn grwpiau addysgu bach gyda chymarebau staffio uwch, os oedd angen y ddarpariaeth hon arnynt. Er enghraifft, mewn ychydig o ysgolion uwchradd, roedd disgyblion iau yn cael eu haddysgu gan yr athro ADY ar gyfer gwersi iaith a'r dyniaethau. Roedd disgyblion yn y dosbarthiadau hyn yn elwa ar strategaethau addysgu arbenigol, a oedd yn cefnogi eu hanghenion yn dda. Yn ychwanegol, dywedodd arweinwyr fod cynnydd disgyblion mewn llythrennedd yn well o ganlyniad i'r ffocws gwell ar lythrennedd yn ystod y sesiynau addysgu hyn.

Roedd llawer o ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed wedi rhoi ystyriaeth ofalus i gynlluniau eistedd pwrpasol ar draws pob dosbarth i gefnogi dysgu a lles. Roedd yr ystyriaethau hyn yn cynnwys sicrhau bod disgyblion yn gallu clywed cyfarwyddiadau yn glir heb darfu, yn ogystal â chynorthwyo disgyblion â nam ar y golwg i eistedd i ffwrdd o ffenestri neu oleuadau llachar, er enghraifft. Mewn llawer o ddosbarthiadau, roedd athrawon wedi cynllunio'u trefniadau grwpio yn ofalus i alluogi disgyblion ag ADY i gael eu cynorthwyo yn eu dysgu gan eu cyfoedion. Dywedodd arweinwyr nad oeddent wedi profi unrhyw effaith andwyol ar y plant gallu uwch pan roeddent yn cynorthwyo cyfoedion gallu is. Dywedodd staff wrthym fod disgyblion sy'n eistedd mewn grwpiau gallu cymysg yn annog dysgu gwell rhwng cyfoedion.

## Sgaffaldio a rhannu'n ddarnau

Mae *sgaffaldio* yn cyfeirio at dechneg lle mae athrawon yn cefnogi disgyblion wrth iddynt ddatblygu medrau a dealltwriaeth newydd o gysyniadau. Mae sgaffaldio'n helpu disgyblion i gyflawni tasgau na allant eu cwblhau yn annibynnol ar hyn o bryd. Roedd llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio sgaffaldio llafar, gweledol neu ysgrifenedig i gefnogi dysgu'r disgyblion. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio staff cymorth yn effeithiol i fodelu a chefnogi dysgu ymhellach. Roedd hyn wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion dysgu disgyblion. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, cafwyd gwared ar y cymorth hwn yn raddol pan nad oedd ei angen mwyach. O ganlyniad, datblygodd disgyblion yr hyder a'r cymhwysedd i gwblhau tasgau yn annibynnol ac yn llwyddiannus.




Mae *rhannu'n ddarnau* ("chunking") yn cyfeirio at strategaeth addysgu lle mae athrawon a staff cymorth yn rhannu gwybodaeth yn segmentau llai a hylaw. Mewn llawer o achosion, roedd ysgolion effeithiol wedi datblygu strategaeth 'rhannu dysgu yn ddarnau' trwy dorri tasgau i lawr yn unedau llai a mwy hygyrch a oedd yn cynorthwyo disgyblion yr oedd angen hyn arnynt, ac a oedd yn fuddiol i ddisgyblion ag ADY. Yn yr achosion hyn, roedd ysgolion wedi meddwl yn ofalus am ddulliau hygyrch a cham wrth gam. Er enghraifft, roedd ysgolion yn rhoi un cwestiwn neu gyfarwyddyd ar y tro ac yn gwneud defnydd effeithiol o amseryddion i gymell disgyblion i gwblhau tasgau byr o fewn cyfnodau disgwyliedig. Helpodd hyn y disgyblion i ganolbwyntio ar gwblhau tasgau hylaw mewn modd amserol.

## Holi a rhoi cyfarwyddiadau mewn camau bach

Roedd llawer o athrawon yn yr ysgolion a'r lleoliadau yr ymwelom â nhw yn defnyddio cyfarwyddiadau clir ac eglur a chwestiynau effeithiol, a oedd yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion yn dda. Roedd athrawon yn rhannu un cyfarwyddyd ar y tro ac yn aml yn dangos ystyr gyda gwrthrychau cyfeirio, lluniau ac arwyddion. Roeddent yn monitro dealltwriaeth disgyblion yn llwyddiannus trwy ofyn i ddisgyblion ailadrodd neu aralleirio cyfarwyddiadau. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, roedd staff addysgu yn ymgysylltu â disgyblion yn dda trwy ganiatáu amser prosesu priodol i ymateb i gwestiynau neu gyfarwyddiadau. Roedd staff addysgu yn ennyn ymatebion gan ddisgyblion trwy ddefnyddio ystod o ddulliau a oedd yn datblygu dealltwriaeth, hyder a hunan-barch disgyblion. Roedd y strategaethau hyn yn cynnwys rhannu ymatebion ar fyrddau gwyn, trafod ymatebion mewn parau neu grwpiau cyn rhannu â'r dosbarth, a rhannu ymateb partner i gwestiynau. Yn y gwersi mwyaf effeithiol, roedd staff addysgu yn galluogi disgyblion i ychwanegu a chreu syniadau, neu'n wir yn herio'u cyfoedion wrth i gwestiynau gael eu cyflwyno o gwmpas yr ystafell.

## Adnoddau


Roedd llawer o ysgolion a lleoliadau yn y sampl yn darparu offer neu'n addasu adnoddau i gynorthwyo disgyblion ag ADY â'u dysgu. Roedd yr adnoddau hyn yn

cynnwys cymhorthion symudedd ac adnoddau technoleg gynorthwyol fel pennau darllen testun a nodweddion testun i siarad ar gyfrifiaduron. Yn ychwanegol, roedd llawer o Gydlynwyr ADY mewn ysgolion yn darparu cymorth gwerthfawr i athrawon dosbarth trwy addasu adnoddau addysgu, fel addasu maint ffont i wneud testun yn hygyrch ar gyfer disgyblion â nam ar y golwg neu ddarparu fersiynau symbol o weithgareddau i gynorthwyo disgyblion ag ADY. Roedd llawer o staff addysgu mewn ysgolion a lleoliadau sydd â dealltwriaeth glir o anawsterau cyfathrebu disgyblion yn gwisgo laniardiau cyfathrebu gyda delweddau symbol i gynorthwyo disgyblion â'u dealltwriaeth a'u cyfathrebu.






Pan oedd arfer yn fwyaf llwyddiannus, roedd staff addysgu'n gwneud defnydd effeithiol a phwrpasol o adnoddau bywyd go iawn, ffisegol ac amlsynhwyraidd i gefnogi dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau newydd ac arferion dyddiol. Roedd yr adnoddau hyn yn darparu profiadau diriaethol ar gyfer disgyblion, ac roedd disgyblion yn eu cysylltu â chysyniadau mathemategol a chysyniadau eraill. Roedd y rhain yn hynod fuddiol i ddisgyblion ag ADY ar draws pob sector. Roedd yr adnoddau'n cynnwys gwrthrychau cyfeirio, amserlenni gweledol a llinellau rhif.



**Defnyddio adnoddau i gefnogi dysgu mathemateg**


Mae athrawon mathemateg yn **Ysgol y Moelwyn yn** defnyddio trinolion wrth gyflwyno syniadau newydd i ddisgyblion ag ADY. Mae hyn yn cael ei ddatblygu o'r cynradd ac yna'n pontio i wersi uwchradd. Ni ddefnyddir trinolion ym mhob gwers, ac nid yw pob disgybl yn gweld eu hangen neu'n eu defnyddio bob tro, ond mae'n arf allweddol o ran cefnogi'r dysgwyr.

O ganlyniad i hyn, mae'r disgyblion yn gallu gweld a deall cysyniadau mwy haniaethol mathemateg. Unwaith mae'r disgyblion yn gallu 'gweld' y fathemateg yn digwydd, mae hyn yn arwain at ddealltwriaeth llawer dyfnach.







## Adborth effeithiol

Mewn ystafelloedd dosbarth effeithiol, roedd staff addysgu a staff cymorth yn rhoi adborth uniongyrchol ac ystyrlon i ddisgyblion ag ADY. Helpodd yr adborth hwn y

disgyblion i ddeall beth roeddent wedi'i wneud yn dda, a nodi'n glir yr hyn oedd angen iddynt ei wneud nesaf, a sut. Sicrhaodd yr arfer hon fod asesu yn broses ddwy ffordd gefnogol a chydweithredol. Mewn ychydig iawn o achosion, lle roedd yn fwyaf effeithiol, roedd athrawon yn defnyddio adborth yn llwyddiannus i gefnogi disgyblion i gyflawni eu targedau unigol neu amcanion eu CDU. Fodd bynnag, mewn achosion o addysgu llai effeithiol ac adborth annigonol, roedd cynnydd disgyblion ac ansawdd cyffredinol y cymorth ar gyfer disgyblion ag ADY yn cael eu heffeithio'n sylweddol. Mae'r Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF) yn cefnogi ysgolion, colegau a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar i wella addysgu a dysgu trwy ddefnydd gwell o dystiolaeth. Maent yn credu bod:

- Gwahanol ddulliau o gyflwyno adborth yn gallu bod yn effeithiol, ac ni ddylid cyfyngu adborth yn gyfan gwbl i farcio ysgrifenedig. Mae astudiaethau adborth llafar yn dangos effaith ychydig yn uwch ar y cyfan (+7 mis).
- Mae dysgwyr â chyrhaeddiad isel yn tueddu i elwa mwy ar adborth eglur na'r rhai â chyrhaeddiad uchel.

EEF (2021a)

**Adborth byw**

Mae arweinwyr yn **Ysgol Uwchradd Whitmore** yn credu bod rhoi adborth llafar uniongyrchol i ddisgyblion yn meithrin amgylchedd dysgu dynamig. Mae staff addysgu yn aml yn defnyddio delweddwyr a byrddau gwyn sy'n annog cyfranogiad ac ymgysylltiad. Mae'r dull hwn yn helpu personoli cyfarwyddyd gan yr athro oherwydd ei fod yn gallu teilwra adborth i ddiwallu anghenion unigol pob disgybl. Mae'r ysgol wedi nodi cynnydd yn hyder a chymhelliant disgyblion o ganlyniad i gydnabod ymdrechion a chyflawniadau disgyblion yn amserol.

## Deall datblygiad plant



### Staff cymorth

Roedd staff cymorth mewn llawer o ysgolion a lleoliadau yr ymwelom â nhw yn hwyluso a chefnogi cynnwys disgyblion ag ADY yn llwyddiannus. Yn yr achosion mwyaf effeithiol prin, roedd staff cymorth yn fedrus a gwybodus ac yn ychwanegu at yr hyn yr oedd athrawon yn ei wneud. Roeddent yn gwybod yn dda beth oedd anghenion a diddordebau disgyblion. Yn yr achosion hyn, roeddent yn cysylltu ag athrawon wrth baratoi ar gyfer eu rôl yn yr ystafell ddosbarth neu mewn gweithgaredd ymyrraeth. Pan oedd yn fwyaf effeithiol, roedd oedolion sy'n galluogi dysgu yn addasu'r dysgu yn fedrus, gan sicrhau ei fod yn hygyrch a difyr ar gyfer disgyblion ag ADY. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir ar draws pob ysgol; roedd ychydig o achosion lle nad oedd staff yn addasu eu haddysgeg yn ddigonol i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY.

| |
|---|
| Os oes gan gynorthwywyr addysgu rôl gyfarwyddol uniongyrchol, mae'n bwysig iawn eu bod yn ychwanegu at waith yr athro, nid yn ei ddisodli – y disgwyliad yw y dylid mynd i'r afael ag anghenion pob un o'r dysgwyr, uwchlaw popeth, trwy addysgu o ansawdd uchel yn yr ystafell ddosbarth.<br><br>Dylai ysgolion ddarparu digon o amser ar gyfer hyfforddiant i gynorthwywyr addysgu, ac i athrawon a chynorthwywyr addysgu gyfarfod y tu allan i'r dosbarth er mwyn gallu gwneud y paratoadau angenrheidiol ar gyfer gwersi a rhoi adborth.<br><br>EEF Making best use of Teaching Assistants (2021, b) |

### Trefniadau mynediad

Roedd ychydig o ysgolion uwchradd yr ymwelom â nhw yn gwneud trefniadau mynediad priodol ar gyfer disgyblion ag ADY, ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer eu harholiadau a'u hasesiadau allanol trwy wneud addasiadau cyson i'w trefniadau addysgu a dysgu. Galluogodd yr addasiadau hyn i ddulliau addysgu a dysgu i ddisgyblion ddod yn gyfarwydd a hyderus â darpariaeth ychwanegol i gefnogi eu hanghenion, fel y ddarpariaeth ar gyfer darllenydd, ysgrifennydd neu amser ychwanegol i gwblhau eu gwaith.

### Ymagweddau arbenigol at addysgu a dysgu

Llwyddodd ychydig o ysgolion a lleoliadau i ymgorffori strategaethau addysgu a dysgu arbenigol i gefnogi disgyblion o bob oedran ag anghenion mwy cymhleth mewn lleoliadau prif ffrwd, yn cynnwys y rhai y nodwyd bod angen DDdY arnynt. Roedd hyn yn cynnwys ymagweddau at gefnogi datblygiad medrau cyfathrebu, cymdeithasol a gwybyddol mewn plant ag awtistiaeth. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys rhai amlsynhwyraidd a chymhellol i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Helpodd hyn iddynt ddatblygu eu medrau cymdeithasol a dal ati i ganolbwyntio am gyfnodau hirach. Roedd ychydig o ysgolion yn cynnal gweithgareddau symud yn seiliedig ar y synhwyrau ar ddechrau'r diwrnod ar gyfer disgyblion ag ADY. O ganlyniad, roedd disgyblion yn cael eu rheoli'n dda ac yn barod i ymgysylltu a chanolbwyntio ar eu dysgu. Yn yr achosion mwyaf effeithiol hyn, roedd staff addysgu'n dilyn arferion cyson ac yn darparu strwythur cefnogol trwy giwiau gweledol.

## Cefnogi dysgu / ymyriadau

Yn rhan o'u cwricwlwm, roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelom â nhw yn hwyluso grwpiau llythrennedd, rhifedd ac ymyrraeth gymdeithasol ac emosiynol buddiol i gefnogi dysgu prif ffrwd. Mewn lleiafrif o'r achosion mwyaf effeithiol, roedd athrawon a staff cymorth hynod gymwys yn cysylltu ac yn cynllunio'r sesiynau hyn yn dda â'i gilydd. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir ar draws pob darparwr. Mewn ychydig o ysgolion, nid oedd staff cymorth yn cael eu cynnwys yn y gweithgareddau cynllunio, a oedd yn rhwystro darparu cymorth targedig ac yn cyfyngu ar effeithiolrwydd cyffredinol y profiad dysgu i ddisgyblion ag ADY.

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, roedd disgyblion yn cael eu pennu i grwpiau llai yn seiliedig ar anghenion unigol. Roedd yr ymyriadau targedig hyn yn caniatáu cyfleoedd gwerthfawr a phwrpasol ar gyfer dysgu ar y cyd, i ddatblygu ac atgyfnerthu medrau llythrennedd a rhifedd, ac addysgu geirfa allweddol neu gysyniadau allweddol ymlaen llaw cyn eu cyflwyno yn nosbarthiadau prif ffrwd disgyblion, yn enwedig mewn pynciau a thestunau a allai fod wedi bod yn heriol i ddisgyblion. Sylwom fod disgyblion yn teimlo'n gynyddol hyderus i ateb cwestiynau mewn dosbarthiadau a oedd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u cyrhaeddiad yn y tymor hirach. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oedd ysgolion yn ystyried sut roedd eu hymagwedd at gefnogi dysgu ac ymyriadau yn effeithio ar les a deilliannau disgyblion targedig yn ddigon da. Ymhellach, ar draws ysgolion a lleoliadau yr ymwelwyd â nhw, nid oedd ysgolion mor glir â'r hyn y mae angen iddynt fod o ran p'un a yw darpariaeth o'r fath yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) ai peidio. Mewn llawer o achosion, dywedodd ysgolion eu bod yn dilyn canllawiau awdurdodau lleol a diffiniad o DDdY.

Mae'r EEF (2021b) yn nodi bod:

> ymyriadau yn aml ar wahân i weithgareddau ystafell ddosbarth ac mae'r diffyg amser i athrawon a chynorthwywyr addysgu gysylltu yn golygu mai cysylltiad cymharol fach a geir rhwng yr hyn y mae dysgwyr yn ei brofi yn yr ystafell ddosbarth, ac i ffwrdd ohoni. Mae hyn yn golygu y gellir ei gadael i'r disgybl greu cysylltiadau rhwng ymdriniaeth yr ymyrraeth ac ymdriniaeth y cwricwlwm ehangach yn ôl yn yr ystafell ddosbarth. O gofio mai dysgwyr sy'n cael cymorth fel arfer yw'r rhai sy'n ei chael yn anodd dysgu yn y lle cyntaf, mae hyn yn creu her ychwanegol enfawr. Felly, mae integreiddio'r ymyrraeth benodol â'r cwricwlwm prif ffrwd yn hanfodol.

## Modelu sgyrsiau

Roedd Cydlynwyr ADY mewn ychydig o ysgolion wedi darparu trefn ddefnyddiol o ran modelu iaith i staff a oedd yn cynnwys sbardunau gwerthfawr ynglŷn â defnyddio iaith yn briodol i gynorthwyo disgyblion ag ADY. O ganlyniad, dywedodd staff yn yr ysgolion hyn wrthym eu bod yn teimlo wedi'u grymuso i gyfathrebu'n gadarnhaol ac yn sensitif i ymateb i ADY disgyblion.

**Modelu sgyrsiau staff**

Datblygodd **Ysgol Gyfun Aberaeron** ac **Ysgol y Moelwyn** ganllawiau clir i staff i gyfathrebu'n gadarnhaol â disgyblion ADY. Cynhaliwyd gweithdai gydag aelodau o'r Tîm Ymgynghorol ADY a Swyddog CAMHS er mwyn myfyrio ar ddulliau cyfathrebu cadarnhaol a rhai llai cynhwysol. Rhannwyd nifer o enghreifftiau o arfer dda gyda staff a chafwyd cyfleoedd buddiol i drafod a threialu yn ystod y sesiynau ymarferol.

**Defnyddio iaith uniongyrchol**

"Tybed os gallwn ni...."

"Gadewch i ni weld os gallwn ni wneud rhywbeth..."

"Alla' i ddim gweld sut i wneud i hyn weithio..."

"Beth am i ni weld os gallwn ni guro'r cloc..." "Efallai gallem ni ymchwilio…"

"Pwy ydych chi eisiau i'n helpu ni heddiw…"

"Efallai gallem ni……"

Ceisiwch osgoi dweud: "Mae'n amser i chi..." "Mae'n rhaid i chi..." "Mae angen i chi..." "Rhaid i chi..."

**Defnyddio iaith yn ymwneud â dewis**

Enghraifft 1: "Hoffet ti gael dy sgwter, neu hoffet ti gael dy feic?' Mae mynd i'r ysgol yn gyfraith – does gen ti ddim dewis am hynny, ond galli di ddewis sut i fynd yno".

Enghraifft 2: "Hoffet ti wisgo dy esgidiau, neu hoffet ti wisgo dy grocs? Rhaid i ti wisgo esgidiau, ond galli di ddewis pa rai i'w gwisgo".

**Sgriptiau lleddfu defnyddiol**

"Dyweda fwy wrtha' i er mwyn i mi allu dy helpu di…"

"Gadewch i ni siarad am hyn, er mwyn i mi allu deall sut i dy helpu di / helpu'r sefyllfa"

"Rwy'n gallu gweld bod rhywbeth wedi digwydd…Sut galla' i dy helpu di?"

"Beth am i ni ffonio Mr Jones….Rwy'n gwybod y bydd e'n gallu ein helpu i ddatrys y mater…"

## Cwricwlwm i Gymru

Roedd arweinwyr mewn ychydig o ysgolion yn gwerthfawrogi rhoi Cwricwlwm i Gymru ar waith a diwygio anghenion dysgu ychwanegol ar yr un pryd yn gyfle i greu ymagweddau at ddysgu sy'n fwy cynhwysol ac yn canolbwyntio mwy ar y dysgwyr.

Yn yr ysgolion hyn, roedd arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r newidiadau hyn yn ystyriol trwy gynllunio gofalus. Yn ystod ein hymweliadau, er enghraifft, disgrifion nhw sut y galluogodd iddynt ddatblygu cwricwlwm mwy personoledig i ddiwallu anghenion a bodloni diddordebau plant a phobl ifanc ag ADY. Roedd arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau llwyddiannus yn alinio strategaethau i fodloni nodau Cwricwlwm i Gymru a diwygio ADY, gan feithrin ymagwedd gydlynol at addysgu a dysgu. Fodd bynnag, nid oedd llawer o'r ysgolion a'r lleoliadau yr ymwelwyd â nhw yn datblygu ymagwedd at ddysgu a oedd yn gynhwysol ac yn canolbwyntio ar y dysgwr yn gyson.

### Cwricwlwm teilwredig i alluogi a chefnogi cynnydd disgyblion

Mae dysgu personoledig yn galluogi disgyblion i gael eu haddysgu mewn ffordd ac ar gyflymdra sy'n gweddu iddyn nhw. Mae'n ymagwedd deilwredig ac ymatebol at ddysgu pob disgybl er mwyn iddo allu gwneud cynnydd, cyflawni a chymryd rhan yn llawn mewn profiadau dysgu difyr. Ychydig o ysgolion yn unig oedd yn darparu profiadau dysgu personoledig a oedd yn diwallu anghenion disgyblion ag ADY yn effeithiol. Yn yr achosion prin hyn, roedd athrawon yn cynllunio gwersi'n ofalus i fynd i'r afael â thargedau unigol, yn defnyddio TG i greu cynlluniau dysgu pwrpasol, ac yn teilwra gweithgareddau i gyd-fynd â diddordebau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hon yn ymagwedd gyffredin, ac nid oedd llawer o ysgolion yn ymgysylltu â disgyblion yn ddigonol, gan eu gadael heb ddealltwriaeth glir o'u camau nesaf mewn dysgu.

### Profiadau dysgu bywyd go iawn

Lle'r oedd ysgolion a lleoliadau yn fwyaf effeithiol, roeddent yn darparu profiadau dysgu dilys a phwrpasol ar gyfer disgyblion ag ADY yr oedd modd eu haddasu i leoliadau bywyd go iawn. Roedd y ddarpariaeth hon yn caniatáu i ddysgu fod yn fwy hyblyg a pherthnasol i anghenion disgyblion. Galluogodd y cyfleoedd gwerthfawr hyn i ddisgyblion ddatblygu medrau pwysig a oedd yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu a'u bywydau. Yn aml, roeddent yn datblygu medrau buddiol fel annibyniaeth, hunanofal neu drin arian mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn ymarferol.

**Rhaglen medrau bywyd**

Mae staff yn **Ysgol Uwchradd Whitmore** wedi ymateb i'r angen am raglen medrau bywyd ar gyfer eu disgyblion ag ADY. Mae CydADY yr ysgol yn gweithio gyda theuluoedd a disgyblion i nodi a mynd i'r afael â medrau fydd eu hangen ar ddisgyblion i fyw yn annibynnol. Mae'r ysgol yn cydnabod bod y medrau hyn yr un mor bwysig â'r medrau hynny sy'n cael eu dysgu yn draddodiadol yn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd ym mhob maes o'u bywyd ac yn eu galluogi i gael y cyfle gorau i gyflawni eu nodau bywyd.

Pan roedd arfer yn hynod lwyddiannus ar gyfer disgyblion ag ADY, roedd staff addysgu'n cynllunio profiadau dysgu bywyd go iawn difyr ac ymarferol, wedi'u teilwra i fodloni gofynion unigol pob plentyn ar draws ystod o faterion pwnc. Yn yr achosion hyn, daeth disgyblion yn gyfranogwyr gweithredol yn eu dysgu eu hunain, a datblygon nhw ddealltwriaeth ddyfnach o gysyniadau newydd. Pan roedd hyn yn cael ei wneud yn dda, roedd disgyblion yn elwa ar ystod o brofiadau dysgu a oedd yn eu galluogi i ddangos tystiolaeth o'u dysgu trwy ddulliau eraill.




Mae **Meithrinfa Homestead** yn darparu amgylcheddau effeithiol a chyfleoedd gwerthfawr i blant ag ADY i alluogi dysgu trwy fynegiant artistig. Trwy ymgorffori deunyddiau wedi'u hailgylchu ac wedi'u hadfer yn eu gweithgareddau, mae'r feithrinfa yn annog creadigrwydd ac archwilio, gan gynnig amgylchedd synhwyraidd cyfoethog lle gall plant fynegi eu hunain yn rhydd.

Yn ychwanegol, mae'r amgylchedd awyr agored yn faes chwarae ar gyfer archwilio a darganfod, gan gynnig cyfleoedd rhagorol i ddysgu ar gyfer plant ag ADY. Mae sesiynau ysgol goedwig a gweithgareddau wedi'u cynllunio'n ofalus yn yr awyr agored yn darparu profiad dysgu amlsynhwyraidd, gan hyrwyddo datblygiad corfforol ac annibyniaeth.

Mae ymarferwyr yn defnyddio'r gofodau niferus yn yr awyr agored yn effeithiol i hyrwyddo datblygiad cyfannol a medrau datrys problemau ymhlith plant ag ADY. Trwy weithgareddau arloesol fel palu yn y pwll mwd, adeiladu yn y gweithdy, sesiynau amser stori a choginio tân agored, maent yn creu cyfleoedd dysgu ystyrlon sy'n darparu ar gyfer anghenion amrywiol pob un o'r plant. Mae'r ddarpariaeth gynlluniedig hon yn sicrhau bod plant ag ADY yn mynd ati i ymgysylltu â'u taith ddysgu a'u datblygiad.

I ddiwallu anghenion pob un o'r disgyblion yn **Ysgol Uwchradd Whitmore**, mae staff addysgu wedi sefydlu ardal ddysgu yn yr awyr agored. Nod y gwaith hwn yw cefnogi ymgysylltiad pob un o'r disgyblion, gan gydnabod bod angen ymagwedd bwrpasol a theilwredig ar rai disgyblion. Mae'r ardal yn cynnwys caban pren, twnnel polythen, gwelyau plannu uwch a chwt potiau. Mae disgyblion yn dewis y llwybr hwn ac yn dilyn y cymhwyster 'Dysgu yn yr Awyr Agored'. Gellir defnyddio'r cynnyrch yn yr ardd yn sesiynau pobi wythnosol yr ysgol, ac mewn sesiynau coginio eraill.




## Diwallu anghenion pob un o’r disgyblion

At ei gilydd, lle roedd ysgolion wedi penderfynu nad oes gan ddisgybl ADY, roedd staff addysgu ym mwyafrif yr ysgolion wedi gweithio’n ddiwyd i sicrhau bod anghenion y disgyblion hyn yn cael eu hystyried yn dda. At ei gilydd, yn ystod ein hymweliadau, sylwom fod y disgyblion hyn yn cael eu cefnogi’n briodol gan ddarpariaeth gyffredinol ysgolion a chan sesiynau ymyrraeth ychwanegol. Parhaodd llawer o ysgolion yn ein sampl i ddefnyddio ‘cofrestrau monitro’ i fonitro’r cynnydd ac adolygu’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion nad ydynt yn derbyn DDdY. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae gan ddisgyblion sy’n disgyn i’r categori hwn broffiliau un dudalen ac mae staff addysgu’n gwneud defnydd pwrpasol o’r dogfennau hyn yn eu cynllunio.

## Dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol mewn ysgolion prif ffrwd

Roedd lleiafrif o’r ysgolion yn y sampl yn cynnal dosbarth arbenigol awdurdod lleol (DAALl) ar gyfer disgyblion ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol, sef darpariaethau arbenigol o fewn ysgolion prif ffrwd ar gyfer disgyblion y nodwyd bod ganddynt ADY. Efallai eu bod yn cael eu hadnabod yn lleol fel canolfannau adnoddau arbenigol, cyfleusterau addysgu estynedig, cyfleusterau addysgu arbenigol neu ganolfannau cymorth dysgu. Roedd anghenion disgyblion sy’n mynychu dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol yn amrywio, ac yn cynnwys awtistiaeth, ADHD, anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu, neu nam ar y clyw neu’r golwg, er enghraifft. Mewn ychydig o’r dosbarthiadau hyn, nid oedd anghenion disgyblion yn wahanol i anghenion disgyblion a oedd yn mynychu ysgolion arbennig. Dros y blynyddoedd, mae awdurdodau lleol wedi cynyddu eu darpariaeth dosbarthiadau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd.

Mewn dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol lle roedd arfer yn fwyaf effeithiol, roedd disgyblion a staff addysgu yn yr ysgol yn elwa ar y ddarpariaeth hon. Er

enghraifft, roedd staff arbenigol yn y dosbarthiadau yn darparu dysgu ac ymyriadau teilwredig a oedd yn diwallu anghenion disgyblion yn dda. Roedd disgyblion yn elwa ar ystod o adnoddau arbenigol, gyda chymarebau uchel staff i ddisgyblion, mewn amgylcheddau sy'n galluogi dysgu. Ymhellach, mewn ychydig o achosion, roedd disgyblion yn y dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol yn elwa ar integreiddio i wersi prif ffrwd a nodwyd. Roedd yr integreiddio hwn yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddysgu gyda'i gilydd ar draws ystod lawn y cwricwlwm a phrofiad i ddangos empathi at ei gilydd. Roedd staff addysgu prif ffrwd yn gwerthfawrogi'r cydweithio a'r arbenigedd a rennir gan eu cydweithwyr o fewn y DAALI ac yn mabwysiadu dulliau addysgu arbenigol yn eu haddysgu eu hunain.

Mae dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol yn rhan bwysig o'r sbectrwm darpariaeth arbenigol i gefnogi disgyblion ag ADY. Fodd bynnag, nid oedd dealltwriaeth glir ac ar y cyd bob amser o'r meini prawf mynediad ac ymadael ar gyfer dosbarthiadau arbenigol, na sut roedd eu darpariaeth yn wahanol neu'n ychwanegol i unrhyw ddarpariaeth ysgol arbennig mewn ardal. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd awdurdodau lleol yn cynllunio'n strategol i sicrhau bod digon o ddarpariaeth arbenigol i ddiwallu'r sbectrwm anghenion dysgu ychwanegol yn eu hardal a bod arbenigedd yn cael ei rannu ar draws y gweithlu yn y lleoliadau hyn. Fodd bynnag, trwy gydol yr adolygiad hwn, gwelsom dystiolaeth o bwysau ar leoedd mewn ysgolion arbennig a dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol, gan olygu bod gormod o ddisgyblion ag anghenion cymhleth yn aros mewn lleoliadau prif ffrwd ac nid oeddent yn derbyn y cymorth arbenigol oedd ei angen arnynt.

Mae Canolfan Cymorth Clyw **Ysgol Alun** yn darparu cymorth hynod effeithiol ar gyfer disgyblion â nam ar eu clyw. Mae'r disgyblion hyn yn mynychu dosbarthiadau prif ffrwd ac yn cael eu cynorthwyo'n dda gan eu cyfoedion a gweithwyr cymorth cyfathrebu arbenigol. Mae tîm ADY yr awdurdod lleol yn sicrhau bod gwybodaeth ddefnyddiol yn cael ei rhoi i gydweithwyr am anghenion disgyblion unigol a sut orau y gallant eu cynorthwyo. Mae staff wedi meithrin perthnasoedd gwerthfawr â rhieni disgyblion ag ADY ac yn gofyn am eu barn i helpu ffurfio darpariaeth yn effeithiol.

## Cymorth i ysgolion arbennig

Mewn ychydig o awdurdodau lleol, roedd swyddogion yn y timau ADY a chynhwysiant yn hyrwyddo cydweithio ymhlith ysgolion prif ffrwd ac arbennig i'w cynorthwyo i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddiannus.

Mae staff yn **Ysgol Cae'r Drindod**, yn cynnwys y Gwasanaeth Sbectrwm Awtistig, yng Nghaerffili, yn darparu ystod helaeth o gymorth arbenigol o ansawdd uchel i ysgolion a lleoliadau prif ffrwd. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth i dros 2,500 o ddisgyblion ag awtistiaeth. Mae wedi bod yn allweddol o ran meithrin gallu ysgolion prif ffrwd i gefnogi disgyblion ag awtistiaeth, er enghraifft trwy greu amgylcheddau synhwyraidd isel a chyflwyno strategaethau i gefnogi disgyblion unigol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu cymorth uniongyrchol i deuluoedd disgyblion ag awtistiaeth.

Mae gan Ysgol Cae'r Drindod naw dosbarth lloeren ar draws y fwrdeistref ar gyfer disgyblion ag anghenion lefel uchel. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau lloeren ar gofrestr yr ysgol arbennig ond yn elwa ar integreiddio a chynhwysiant gyda disgyblion mewn lleoliadau prif ffrwd. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi disgyblion ag ADY i gael eu haddysg o fewn eu cymuned leol. Mae'r dosbarth lloeren yn ddatblygiad diweddar yng Ngholeg y Cymoedd ar gyfer dysgwyr ôl-16. Mae disgyblion yn y dosbarth lloeren hwn yn elwa ar ystod o gyrsiau a gynigir yn y coleg, ond hefyd yn derbyn cymorth arbenigol gan staff Cae'r Drindod. Mae hyn yn llwyddiannus o ran codi dyheadau pobl ifanc ag ADY i gyflawni eu nodau yn y dyfodol.

Mae Ysgol Cae'r Drindod hefyd yn darparu ystod o gymorth ar gyfer dosbarthiadau arbenigol yr awdurdod lleol (DAALI) ar draws y fwrdeistref. Trwy gydweithio â'r gwasanaeth seicoleg addysg, mae staff yn yr ysgol wedi darparu cymorth a hyfforddiant ar gyfer asesu disgyblion ag ADY. Maent hefyd yn cymedroli CDUau ac yn craffu ar waith ar y cyd. Mae hyn yn golygu bod staff ar draws dosbarthiadau arbenigol yr awdurdod lleol a'r ysgol arbennig yn meddu ar ddealltwriaeth ar y cyd o anghenion disgyblion. Mae hyn yn codi disgwyliadau ac yn gwella'r cynnydd a wna disgyblion ag ADY yn nosbarthiadau arbenigol yr awdurdod lleol.

Caiff yr ystod helaeth, o ansawdd uchel, o gymorth allymestyn a datblygiad proffesiynol a ddarperir gan Ysgol Cae'r Drindod, effaith werthfawr ar ansawdd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar draws y sir.

Ysgol arbennig yw **Ysgol Bryn Derw**. Mae wedi gweithio gyda swyddogion yr awdurdod lleol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth mewn canolfannau adnoddau ar draws y sir. Er enghraifft, mae wedi cynorthwyo staff yn y canolfannau adnoddau dysgu i gynnal proffilio synhwyraidd. Mae hyn wedi arwain at gyflwyno cylchedau synhwyraidd ar draws yr holl ganolfannau adnoddau yng Nghasnewydd, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu disgyblion ag awtistiaeth mewn ysgolion prif ffrwd.

## Darpariaeth ddysgu ychwanegol

Mae'r canfyddiadau yn ein hadolygiad thematig diwethaf yn ymwneud ag anghysondebau mewn deall a chymhwyso DDdY ledled Cymru yn parhau'n berthnasol. Mae dryswch yn parhau ynghylch dealltwriaeth awdurdodau lleol o ran cymhwyso a chyflwyno Deddf ADYTA a'r Cod ADY yn gyson ar ôl hynny.

Nododd y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru, yn Tribiwnlys Addysg Cymru, Adroddiad Blynyddol 2022-2023

> Mae unrhyw gyfnod o newid bob amser yn ansefydlog. Mae'n hanfodol bod y gyfraith ADY newydd yn cael ei chyflwyno mor esmwyth â phosibl i blant a phobl ifanc yng Nghymru, i sicrhau nad ydynt dan anfantais. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn ALlau sicrhau eu bod yn gwybod am y gyfraith hon, yn ei deall hi, ac yn gallu gweithredu yn unol â hi. Rhaid cofio y bydd dyletswyddau o dan Gyfraith ADY yn drech na pholisïau'r ALl bob amser. Felly, rhaid i'r broses gwneud penderfyniadau yn yr ALl fod yn un dryloyw ac atebol. Mae'n rhaid i'r Tribiwnlys weithredu'r gyfraith hon wrth wneud penderfyniadau, a gall ond ei chymhwyso wrth wneud hynny (tud.2).

Roedd diffyg cysondeb yn parhau o ran y cyngor yr oedd awdurdodau lleol yn ei roi i ysgolion yn gysylltiedig â'r graddau y dylid dosbarthu darpariaeth yn DDdY. Mae hyn yn arwyddocaol gan mai dim ond pan dybir bod darpariaeth yn DDdY yr ystyrir bod gan blentyn neu berson ifanc ADY a bod angen CDU arno. Roedd hyn yn parhau i fod â goblygiadau i ddisgyblion ac arfer o fewn ysgolion a lleoliadau. Mae'n debygol o hyd y dylid ystyried bod rhywfaint o'r ddarpariaeth a drefnir ar gyfer disgyblion yn DDdY. Cytunodd y rhan fwyaf o ysgolion ac awdurdodau lleol y byddai'n fuddiol egluro DDdY ar lefel genedlaethol.

Serch hynny, wrth ymateb i'n canfyddiadau o'n hadroddiad thematig cyntaf ar ADY, roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad thematig hwn wedi gwneud cynnydd addas yn datblygu eu dehongliad eu hunain o DDdY ar draws lleoliadau addysg, a'i chyflenwi. Roedd y mesurau a roddwyd ar waith wedi bod yn rhai amlweddog, yn canolbwyntio ar ledaenu arweiniad clir ac yn ymestyn systemau cymorth a chyfleoedd datblygiad proffesiynol. Roedd bron pob un o'r awdurdodau lleol wedi datblygu dogfennau allweddol, fel dogfennau 'egwyddorion a disgwyliadau' a phecynnau cymorth ADY i sicrhau dealltwriaeth well o DDdY ar draws lleoliadau ac ysgolion. Roedd gan bron bob awdurdod lleol ymagwedd gyson ar draws eu hysgolion a'u lleoliadau at gymhwyso'r ymateb graddedig. O ganlyniad, roedd ysgolion a lleoliadau a gymerodd ran yn yr adroddiad thematig hwn yn gadarn, ar y cyfan, o ran eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei ddosbarthu'n DDdY o fewn eu cyd-destun lleol a'u dealltwriaeth eu hunain.

> Mae awdurdod lleol Casnewydd wedi sefydlu Fforwm Partneriaeth Cynhwysiant buddiol, lle gall grŵp o benaethiaid cynrychioliadol ddylanwadu ar bolisi ac arfer bresennol o ran ADY. Mae hwn yn offeryn defnyddiol o ran sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i ddatblygu ei hymagweddau at ddarpariaeth ddysgu gyffredinol a DDdY.

## Gweithredu o 0-5 oed

O dan ddogfen Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (2021b)

> Pan gaiff ei ddwyn i sylw awdurdod lleol, neu pan ddaw i'r amlwg iddo mewn ffordd arall, y gallai fod gan blentyn y mae'n gyfrifol amdano ADY, **rhaid** i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY (11.5). Gall y

> posibilrwydd fod gan blentyn ADY gael ei "ddwyn i sylw" awdurdod lleol mewn sawl ffordd. Efallai y bydd un o amrywiaeth eang o wahanol asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn atgyfeirio'r plentyn i ddechrau. Er enghraifft, gallai darparwr gofal plant neu addysg feithrin nas cynhelir roi gwybod i'r awdurdod lleol ei fod yn amau bod gan blentyn ADY. Neu, gallai corff iechyd fod wedi dod i'r farn bod gan y plentyn ADY, neu y gallai fod ganddo ADY, a thynnu sylw'r awdurdod lleol at y peth gan gydymffurfio â'i ddyletswydd yn adran 64 Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (Pennod 21). Efallai y bydd rhieni'r plentyn hefyd yn mynegi pryderon. Gallai'r pryderon hyn gael eu codi drwy sefydliad addysg nas cynhelir (os yw'r plentyn yn mynychu un) neu'n uniongyrchol gyda'r awdurdod lleol. Mae’r hyn y mae rhieni yn sylwi arno ynghylch eu plentyn yn aml yn hanfodol er mwyn adnabod anghenion yn gynnar. Dylai awdurdodau lleol a darparwyr addysg feithrin nas cynhelir fod yn agored i sgyrsiau sy'n mynegi'r pryderon hyn a dylent fod yn barod i ymateb ac ystyried unrhyw wybodaeth a ddarperir. (11.6)

Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol wedi rhoi ymagweddau systematig ar waith i nodi ADY sy’n dod i’r amlwg gan blant rhwng genedigaeth a phum mlwydd oed. Dywedodd pob un o’r awdurdodau lleol a gymerodd ran yn yr adroddiad thematig hwn wrthym fod gweithio ar draws gwasanaethau a gydag ystod helaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid wedi bod yn llwyddiant nodedig yn rôl SAADYBC. Roedd hyn wedi galluogi datblygu prosesau atgyfeirio ar y cyd gan sicrhau dulliau cyffredin ar draws pob awdurdod lleol. Er enghraifft, roedd cydweithwyr ar draws gwasanaethau yn mynychu panelau atgyfeirio i nodi anghenion sy’n dod i’r amlwg, penderfynu ar y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a datblygu’r proffil un dudalen a’r cynllun datblygu unigol (CDU). Yn fwy diweddar, roedd awdurdodau lleol wedi cydweithio â chydweithwyr ar draws gwasanaethau i ddatblygu systemau buddiol ar gyfer adolygu ADY yn gyson.

Roedd bron pob un o’r awdurdodau lleol yn darparu ystod helaeth o hyfforddiant, cymorth ac arweiniad i gynorthwyo lleoliadau a darparwyr blynyddoedd cynnar eraill i nodi anghenion dysgu ychwanegol a datblygu’r DDdY berthnasol. Mewn llawer o achosion, roeddent yn trefnu amseroedd a chyflwyno model hyfforddiant yn ofalus i ddiwallu anghenion darparwyr blynyddoedd cynnar. Roedd hyn yn cynnwys cynnig sesiynau gyda’r nos ac ar benwythnosau, yn ogystal â defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer hygyrchedd gwell. Roedd llawer o awdurdodau lleol yn darparu pecynnau cymorth neu ffeithluniau, er enghraifft, a oedd yn cefnogi nodi angen. Roeddent yn darparu gwybodaeth fanwl i ddarparwyr a oedd yn amlinellu’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol bosibl i ddiwallu’r anghenion a nodwyd. Pan roedd hyn yn fwyaf effeithiol, roedd awdurdodau lleol yn darparu timau o swyddogion i weithio ochr yn ochr â darparwyr, gan ddatblygu a modelu’r ddarpariaeth gytûn.

### Recriwtio a chadw mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar

Nododd awdurdodau lleol heriau o ran recriwtio a chadw staff mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. Mewn ychydig o achosion, lle bu trosiant uchel o ran staff, collodd y lleoliad staff oedd â phrofiad gwerthfawr mewn diwallu anghenion plant unigol. Roedd hyn yn cael effaith negyddol ar gapasiti a gallu’r lleoliadau i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol plant unigol ac yn rhoi straen ychwanegol ar swyddogion awdurdodau lleol y bu’n rhaid iddynt wella medrau staff newydd.

Ymatebodd llawer o awdurdodau lleol yn briodol, er enghraifft trwy greu hyfforddiant ar-lein a allai gael ei ddefnyddio'n hyblyg gan leoliadau. Yn ychwanegol, roeddent yn darparu hyfforddiant 'byr' neu 'gwblhau' ar gyfer staff lleoliadau a darparwyr blynyddoedd cynnar. Roedd hyn yn golygu y gallai staff a oedd yn newydd i'r lleoliadau wella'u medrau'n brydlon a'u bod wedi'u harfogi'n well i ddiwallu anghenion plant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg ac wedi'u nodi.

### Gweithredu Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

Mae Cynlluniau Datblygu Unigol yn un cynllun statudol a ddarperir ar gyfer disgyblion y nodwyd bod ganddynt angen dysgu ychwanegol. Maent yn disodli datganiadau o AAA a chynlluniau anstatudol fel cynlluniau addysg neu ymddygiad unigol. Datblygir Cynlluniau Datblygu Unigol trwy gydweithio â'r disgybl, y rhieni a'r gofalwyr ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill a allai fod yn gysylltiedig â'r disgybl. Dylent roi sicrwydd ac eglurder i blant a theuluoedd am y DDdY a fydd yn cael ei threfnu i ddiwallu ADY dysgwr. Dylai'r CDUau fod yn ddogfen fyw sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd.

Daeth yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (2023) i'r casgliad yn ei hadroddiad comisiwn, Beth yw rôl arweinyddiaeth addysgol wrth gyflawni diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru?, mai lleiafrif o ysgolion yn unig oedd yn teimlo'n gadarn i ddatblygu a chynnal CDUau. Dywedodd arweinwyr mewn llawer o'r ysgolion a'r lleoliadau yr ymwelom â nhw yn rhan o'r gwaith hwn fod arweinwyr ADY yn magu mwy o hyder yn raddol wrth ddatblygu a chynnal CDUau. Yn yr achosion mwyaf effeithiol prin, caiff CDUau eu deall yn dda gan staff addysgu a'u defnyddio'n effeithiol yn rhan o'u cynllunio a oedd yn sicrhau darpariaeth a deilliannau o ansawdd da ar gyfer disgyblion ag ADY. Yn yr enghreifftiau hyn, roedd staff yn integreiddio cyngor allanol a chymorth arbenigol yn llwyddiannus ar gyfer disgyblion yn eu dysgu mewn ffordd fuddiol.
Dywedodd ychydig o awdurdodau lleol ac ysgolion yn y sampl fod pwysau'n parhau o ran bodloni'r graddfeydd amser statudol ar gyfer cyflwyno CDUau. Parhaodd cydweithwyr sy'n gweithio ym maes iechyd i brofi heriau o ran darparu mewnbwn o fewn y graddfeydd amser gosod.

Roedd bron pob un o'r awdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant ac arweiniad defnyddiol am beth sy'n gwneud CDU effeithiol. Roedd llawer o awdurdodau lleol yn darparu enghreifftiau defnyddiol o CDUau cyflawn a dienw i'w rhannu gyda darparwyr. Roedd ysgolion a lleoliadau yn yr awdurdodau hynny yn gwerthfawrogi'r cymorth hwn. Fodd bynnag, nid oedd ychydig o awdurdodau lleol wedi rhannu enghreifftiau o CDUau cyflawn gan eu bod yn credu bod hyn yn niweidiol i arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae gan Gynlluniau Datblygu Unigol rôl bwysig ar gyfer plant sy'n pontio neu'n symud ysgolion. Er bod y lleoliad newydd yn debygol o lunio CDU newydd, gall ddefnyddio CDUau blaenorol i ddeall sut mae'r disgybl wedi cael ei gefnogi yn y gorffennol, beth sydd wedi gweithio, ac yn hanfodol, beth sydd ddim.

**Defnyddio CDU yn y broses bontio**

Mae **Ysgol Gynradd y Tymbl** yn trafod holl ddisgyblion Blwyddyn 6 o fewn cyfarfodydd cynnydd cyson gyda'r ysgol uwchradd leol. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, gwneir defnydd effeithiol o'r CDU er mwyn sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol effeithiol a chyson i ddisgyblion ag ADY yn y broses bontio.

Yn ein hadroddiad Y system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd (Estyn, 2023), nodom:

> Roedd llawer o ysgolion yn glir y bydd awdurdodau lleol yn cynnal CDUau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd â chofrestriad deuol. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r grwpiau hyn, roedd diffyg eglurder a thryloywder ynghylch pa CDUau fydd yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol.

Ar draws awdurdodau lleol, roedd anghysondebau'n parhau o ran dehongli'r Cod ADY ac yn yr ymagweddau dilynol at CDUau a gynhelir gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Er enghraifft, gallai un awdurdod ystyried bod darpariaeth mewn dosbarth arbenigol awdurdod lleol yn DDdY y mae angen CDU a gynhelir gan awdurdod lleol arni, ond mewn un arall, gellir dosbarthu hyn yn CDU a gynhelir gan ysgol. Cydnabu swyddogion awdurdodau lleol ac arweinwyr ysgolion fod yr amrywioldeb hwn yn arwain at ddryswch i ysgolion, i blant a phobl ifanc ac i rieni a gofalwyr.

**Ymagweddau at CDUau mewn awdurdodau lleol ac ysgolion**

Mae gan swyddogion yn awdurdod lleol Sir Ddinbych ymagwedd bwyllog at ystyried CDUau mewn ysgolion ac a gynhelir gan yr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae Cydlynwyr ADY ac arweinwyr mewn ysgolion yn glir ynglŷn â phrosesau'r awdurdod lleol a'r gwahaniaeth rhwng CDU a gynhelir gan ysgol neu awdurdod lleol. Trwy ddeialog broffesiynol reolaidd a chydweithio agos ag ysgolion, caiff dysgwyr eu nodi'n briodol ar gyfer ymyriadau cynnar ac ymateb graddedig gan sicrhau addysgu o ansawdd uchel a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol. Mae hyn yn sicrhau bod y rhai sy'n cael eu cyfeirio at yr awdurdod lleol yn briodol, gyda thystiolaeth glir o angen am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol na all yr ysgol ei sicrhau.

O dan ddogfen Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (2021b):

> Disgwylir i ysgolion ac awdurdodau lleol fabwysiadu ymateb graddedig i blant a phobl ifanc ag ADY, gan ddefnyddio ystod eang o strategaethau sy'n caniatáu ar gyfer symud ar hyd continwwm o gymorth i adlewyrchu anghenion a'r cynnydd a wneir (tud. 39).

Bron ym mhob achos, roedd ymagweddau awdurdodau lleol at yr ymateb graddedig ac at CDUau wedi'u datgan yn glir yn eu dogfennau egwyddorion a disgwyliadau. Mae hyn yn fuddiol ar gyfer ysgolion a lleoliadau addysg eraill o ran deall eu cyfrifoldebau am blant a phobl ifanc ag ADY.

Bron ym mhob un o'r awdurdodau lleol yn ein sampl, mae timau ADY a chynhwysiant wedi gwella medrau Cydlynwyr ADY yn llwyddiannus o ran datblygu CDUau

effeithiol, er enghraifft trwy eu fforwm Cydlynwyr ADY a sesiynau hyfforddi byr. Cafodd llawer o'r sesiynau hyfforddi hyn eu recordio ar-lein er mwyn i ysgolion allu eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant mewnol. Roedd llawer o awdurdodau lleol yn y sampl yn darparu cymorth defnyddiol i sicrhau ansawdd CDUau. Er enghraifft, roeddent yn darparu hyfforddiant ac arweiniad, ymgynghoriadau â Seicolegwyr Addysg, 'sesiynau galw i mewn' gyda swyddogion awdurdodau lleol ac athrawon arbenigol, a chymedroli clwstwr gyda hyrwyddwyr CDU neu CydADY. Pan roedd hyn yn fwyaf effeithiol, roedd ychydig o awdurdodau lleol yn pennu swyddog CDU neu weithiwr achos i deulu lle cytunir bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY. Roeddent yn mynychu'r holl gyfarfodydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cefnogi'r trafodaethau am ddarpariaeth ADY. Trwy gydweithio'n effeithiol â'r holl randdeiliaid, roeddent yn cyfrannu at ddatblygu'r CDU ac yn ymgysylltu'n drylwyr â'r broses cymedroli a sicrhau ansawdd.

Yn y sampl o CDUau a rannwyd gyda ni yn rhan o'r broses hon, amlinellodd y rhan fwyaf ohonynt anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn dda, a darparon nhw broffiliau defnyddiol iawn. Roedd ychydig o CDUau yn rhoi deilliannau clir ac yn nodi camau bach defnyddiol i gyflawni'r canlyniad cyffredinol. Yn yr achosion hyn, roedd yn glir gweld y cynnydd cynlluniedig ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Fodd bynnag, mewn llawer o CDUau, roedd deilliannau'n rhy annelwig. Cafodd hyn effaith negyddol ar bennu'r DDdY fwyaf priodol. Mewn ychydig o enghreifftiau, nid oedd hi bob amser yn glir sut roedd darparwyr yn bwriadu mesur cynnydd plant a phobl ifanc. Roedd hyn yn ddiffyg sylweddol.

### Platfformau digidol

Adeg yr adolygiad hwn, roedd mwyafrif yr awdurdodau lleol ledled Cymru wedi datblygu platfformau digidol i gefnogi'r broses atgyfeirio statudol a datblygu'r CDU cysylltiedig. Mae hyn yn fuddiol o ran datblygu rhesymeg leol glir ar gyfer DDdY ac o ran cefnogi datblygiad CDUau a gynhelir gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid oes rhesymeg a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer DDdY, ac o ganlyniad, nid oedd y ddarpariaeth hon yn gyson ledled Cymru. Pan roedd y systemau a'r prosesau hyn yn fwyaf effeithiol, roeddent yn cefnogi awdurdodau lleol yn llwyddiannus i rannu'r CDU, gan sicrhau cydweithio â'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol. Roedd hyn yn golygu bod pawb a oedd yn cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gynnwys yn llawn mewn prosesau gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r DDdY fwyaf priodol. Er gwaethaf manteision clir systemau ar-lein, nid yw'n gwbl hysbys i ba raddau y mae'r rhain yn ei gwneud yn hawdd trosglwyddo gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol, a rhwng ysgolion a lleoliadau ôl-16 i gefnogi gwneud penderfyniadau amserol ar gyfer disgyblion.

## Pontio

Mae'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (Llywodraeth Cymru, 2021b) yn datgan:

> Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn profi'r broses bontio mewn gwahanol ffyrdd, ac mae angen i unrhyw gynlluniau ar gyfer cymorth ychwanegol gael eu datblygu o gwmpas anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc. Gall prosesau pontio fod yn fwy heriol i blant a phobl ifanc ag ADY na'u cyfoedion, ac o ganlyniad, efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt i

> sicrhau nad yw'r broses bontio'n cael effaith andwyol ar eu haddysg neu eu hyfforddiant, gan gynnwys eu DDdY. (27.5)
>
> Mae cynlluniau pontio fel arfer yn fwyaf effeithiol pan fabwysiedir dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ganiatáu i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc leisio unrhyw bryderon sy'n ymwneud â'i broses bontio nesaf. Trwy drafod y newidiadau tebygol i addysg neu hyfforddiant y plentyn neu'r person ifanc, gellir helpu i baratoi'r dysgwr ar gyfer y pontio a thynnu sylw at ba gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen. Bydd rhai cyfarfodydd sy'n trafod cynlluniau pontio yn elwa ar gynnwys partneriaid eraill a all helpu'r plentyn neu'r person ifanc i ddeall sut bydd y broses bontio'n gweithio'n ymarferol a pha gymorth ychwanegol sydd ar gael iddo. Gellir cofnodi unrhyw gymorth ychwanegol a nodwyd ar gyfer pontio yn CDU y plentyn neu'r person ifanc fel bod modd cymryd camau ar yr adeg berthnasol. (27.6)
>
> (tud.304 a 305)

Nodom yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion a lleoliadau fod cysylltiadau agos rhwng sefydliadau addysgol yn y trefniadau pontio mwyaf effeithiol. Roedd hyn yn gysylltiedig â phontio mewn lleoliadau nas cynhelir, i ysgolion cynradd ac uwchradd, a phontio ar gyfer llwybrau ôl-16. Yn yr ysgolion a'r lleoliadau mwyaf effeithiol, roedd DDdY yn gyson yn y cyfnod pontio. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir bob tro. Yn yr achosion hyn, roedd trefniadau pontio gwael yn cael effaith andwyol ar DDdY disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae plentyn yn trosglwyddo i'w leoliad addysg cyntaf o amgylchedd ei gartref. Un o'r agweddau allweddol ar rôl y SAADYBC fu sefydlu perthnasoedd gweithio effeithiol a rheoli prosesau pontio ar draws pob un o'r timau a'r gwasanaethau sy'n cefnogi plant o ddiwrnod eu geni hyd nes byddant yn bum mlwydd oed. Mae hyn wedi llwyddo bron ym mhob achos yn y sampl. Er enghraifft, nododd swyddogion fod cydweithio gwell rhwng gwasanaethau, gyda chydweithwyr mewn Gwasanaethau Plant, mentrau fel Dechrau'n Deg, gwasanaethau synhwyraidd ac anabledd, ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a darparwyr gofal plant. Mae'r cysylltiadau cryfach hyn ar draws partneriaid wedi hwyluso trefniadau pontio ar gyfer plant o ddiwrnod eu geni hyd nes byddant yn bum mlwydd oed. Mae ychydig o awdurdodau lleol wedi sefydlu timau pontio buddiol i gefnogi plant â chael eu derbyn i ddarparwyr gofal plant, lleoliadau ac ysgolion nas cynhelir.

Fodd bynnag, nid oedd yr arfer hon yn gyson mewn ysgolion a lleoliadau ar draws y sampl yr ymwelom â hi. Mewn ychydig o achosion, ceir diffyg cysondeb a chydlynu ar gyfer plant sy'n symud o leoliad i ysgol, yn enwedig lle maent yn manteisio ar gymorth ychwanegol gan oedolion.

**Pontio i ysgol gynradd**

Mae **Meithrinfa Homestead** yn Wrecsam wedi sefydlu system gadarn o gyfarfodydd rheolaidd rhwng ei hymarferwyr a'i hathrawon derbyn o'r ysgolion bwydo. Caiff y cyfarfodydd hyn eu trefnu saith mis cyn y broses bontio i ysgol gynradd. Yn ystod y sesiynau hyn, mae ymarferwyr yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am gynnydd datblygiadol, arddulliau dysgu, hoffterau a chasbethau ac ymddygiadau cymdeithasol pob plentyn. Rhoddir sylw arbennig i blant ag ADY, gan sicrhau bod strategaethau ac ymyriadau effeithiol a ddefnyddir yn y feithrinfa yn cael eu cyfleu ac y gellir parhau â nhw, neu'u haddasu, yn amgylchedd yr ysgol.

Un o'r agweddau hanfodol ar y broses bontio yw'r ymweliad gan athrawon derbyn â'r feithrinfa. Mae'r ymweliadau hyn yn galluogi athrawon i ymgyfarwyddo â'r plant sydd ag ADY mewn amgylchedd cyfarwydd, sy'n lleihau gorbryder ac yn helpu meithrin ymddiriedaeth. Mae athrawon yn arsylwi'r plant yn ystod eu gweithgareddau rheolaidd, gan ennill mewnwelediadau gwerthfawr i'w diddordebau a'u rhyngweithio. Mae hyn yn helpu sefydlu cysylltiad rhwng y plant a'u darpar athrawon, gan wneud y broses bontio i ysgol yn fwy esmwyth a mwy cyfforddus.

Yn ystod y cyfarfodydd, ceir trafodaeth â ffocws ar ADY a DDdY a allai fod gan blant. Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth fanwl am strategaethau llwyddiannus i sicrhau cysondeb a pharhad. Ystyrir rôl rhieni a'r cymorth y maent yn ei ddarparu ar yr aelwyd hefyd, gan hyrwyddo ymagwedd gyfannol at broses bontio pob plentyn.

**Pontio i ysgol uwchradd**

I sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu deall yn dda ac yn amserol a bod ymyrraeth briodol yn cael ei rhoi ar waith, mae adran ADY **Ysgol Uwchradd Caerdydd** yn gweithio'n agos gyda Chydlynwyr ADY mewn ysgolion cynradd clwstwr, a chydweithwyr ADY mewn lleoliadau addysg ôl-16. Cynhelir trafodaethau perthnasol ynghylch deilliannau bwriadedig mewn CDUau, ac fe gaiff DDdY ei nodi a'i chytuno rhwng lleoliadau. Mae'r CDUau terfynol yn cynnwys DDdY yn benodol yn ymwneud â phob ysgol neu gyrchfan bwriadedig, i nodi'n glir fod y ddarpariaeth yn debygol o fod yn wahanol, tra'n cydnabod bod anghenion y disgyblion yn debygol o aros yr un fath.

Mae hyn yn sicrhau bod y CDU yn parhau i fod yn berthnasol ac yn benodol i anghenion y myfyrwyr ar draws y ddau ddarparwr, bod y broses bontio yn ddi-dor a bod y ddarpariaeth yn briodol i leoliadau unigol. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i staff yn y cyrchfannau bwriadedig y gellir diwallu anghenion y myfyrwyr trwy eu darpariaeth.

## Gweithio gydag asiantaethau eraill

Un o uchelgeisiau'r Ddeddf fel y cofnodwyd yn Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Llywodraeth Cymru (2018a) yw:

> annog asiantaethau i rannu gwybodaeth a chydweithio'n well, sy'n hanfodol i sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi'n gynnar a bod y cymorth cywir yn ei le er mwyn i blant a phobl ifanc allu cyflawni deilliannau cadarnhaol (tud.3)

Yn yr achosion mwyaf effeithiol, roedd awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau wedi sefydlu ymagweddau cydweithredol cadarnhaol a gwell gyda rhieni ac asiantaethau arbenigol eraill i sicrhau bod disgyblion ag ADY a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi'n addas. Yn yr achosion hyn, roedd ysgolion a lleoliadau'n gweithio'n agos gyda theuluoedd ac asiantaethau eraill mewn modd amserol, yn rhannu mewnwelediadau ac yn sicrhau cymorth teilwredig, yn ôl yr angen. Fodd bynnag, at ei gilydd, roedd cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn parhau i fod yn rhy amrywiol. Roedd gallu gwasanaethau iechyd, er enghraifft i ddarparu gwybodaeth mewn modd digon amserol, ac o fewn cyfnodau statudol, yn parhau i fod yn destun pryder ac yn rhoi pwysau ar deuluoedd, awdurdodau lleol ac ysgolion a lleoliadau eraill. Mae ychydig iawn o ysgolion uwchradd yn cyflogi eu timau arbenigol eu hunain i ddarparu cymorth amserol ar gyfer disgyblion ag ADY. Fodd bynnag, efallai nad yw llawer o ysgolion llai yn gallu fforddio'r lefel hon o wasanaeth.

**Gwasanaethau arbenigol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol**

Mae arweinwyr yn **Ysgol Uwchradd Caerdydd** yn credu ym mhwysigrwydd mynediad cyflym at wasanaethau arbenigol effeithiol i uchafu datblygiad academaidd, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. I'r perwyl hwn, erbyn hyn, nid yw'r ysgol yn cymryd rhan yn y broses i atgyfeirio disgyblion am gymorth yn allanol, ond yn hytrach, mae'n cyflogi ei seicolegydd addysg, ymgynghorydd awtistiaeth, therapydd galwedigaethol, arbenigwr iechyd a lles emosiynol a'i therapydd lleferydd ac iaith ei hun. Er nad yw'r cydweithwyr hyn yn gweithio yn yr ysgol bob dydd, maent yn cael eu cyflogi i weithio gyda'r ysgol yn rheolaidd a gellir gofyn iddynt am gyngor a chymorth hefyd, er nad ydynt wedi'u lleoli yn yr ysgol.

Mae cymorth arbenigol o fewn cyfarfodydd statudol wedi dod yn nodwedd safonol ym mhrotocolau'r ysgol ar gyfer cefnogi disgyblion, eu teulu a staff yr ysgol wrth iddynt weithio gyda'i gilydd i sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer pob disgybl.

Mae argaeledd cydweithwyr arbenigol nid yn unig yn sicrhau bod cymorth amserol ac effeithiol ar gyfer disgyblion ar gael yn hawdd, mae hefyd yn darparu ffynhonnell gyfoethog ar gyfer cyflwyno dysgu proffesiynol i staff addysgu a chymorth. Mae hyn yn ategu ymdrech yr ysgol i wella dysgu ac addysgu ar gyfer pob disgybl yn yr ysgol – yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar yn gweithio gydag asiantaethau eraill

Nododd y rhan fwyaf o leoliadau blynyddoedd cynnar a Swyddogion Arweiniol

Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (SAADYBC) welliannau mewn cydweithio ar draws gwasanaethau ar gyfer plant a'u teuluoedd. Roedd y cydweithio gwell hwn yn aml yn llwyddiannus o ran sicrhau bod yr holl wasanaethau yn gysylltiedig â'r plentyn a'i deulu yn gwbl ymwybodol o anghenion y plentyn a'r gefnogaeth oedd ei hangen arno. O ganlyniad, roedd bron pob un o'r awdurdodau lleol wedi datblygu prosesau atgyfeirio ar y cyd gwell, gan sicrhau bod anghenion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi'n brydlon.

**Cydweithio â rhieni ac asiantaethau wrth drosglwyddo i leoliadau nas cynhelir**

Cyn dechrau yn lleoliad nas cynhelir **Caban Cegin**, mae ymwelwyr iechyd yn cydweithio'n agos â theuluoedd plant ag ADY ac asiantaethau eraill. Maen nhw'n cynllunio proffil un dudalen cyn i'r plant ddechrau yn y lleoliad. O ganlyniad, mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth well o anghenion a hoffterau plant o fewn y lleoliad. Maent yn cynllunio'n fwy pwrpasol o'r cychwyn cyntaf. Er enghraifft, paratowyd ardal synhwyraidd ac ardaloedd chwarae meddal er mwyn ymateb i anghenion disgyblion.

**Tîm o Amgylch y Plentyn y Blynyddoedd Cynnar**

Mae lleoliad nas cynhelir Pentre Pengwins yn rhagweithiol o ran cefnogi plant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg ac ADY. Er enghraifft, maent yn symbylu cyfarfodydd 'Tîm o Amgylch y Plentyn y Blynyddoedd Cynnar' yn rheolaidd i drafod anghenion y plant gyda rhieni ac ymwelwyr iechyd. Maent yn cael cyngor gan weithwyr proffesiynol pan fydd angen, sy'n fuddiol. Defnyddir y dull hwn yn llwyddiannus hefyd i gefnogi'r broses bontio i'r ysgol ar gyfer rhai plant.

Dywedodd llawer o Swyddogion Arweiniol ADYBC fod gallu cydweithwyr mewn gwasanaethau iechyd yn heriol, yn enwedig o ran gwneud diagnosis o niwrowahaniaeth. Roedd llawer o awdurdodau lleol wedi datblygu perthnasoedd gweithio llwyddiannus â'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA), a oedd yn eu cynorthwyo'n dda i gryfhau'r cydweithio ar draws gwasanaethau addysg ac iechyd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, roedd y berthynas hon yn llai llwyddiannus, yn bennaf o ganlyniad i allu canfyddedig y SACDA. Roedd hyn yn golygu bod penderfyniadau pwysig ynghylch cymorth ar y cyd ar gyfer plant yn cael eu gohirio, sy'n cael effaith negyddol ar nodi anghenion a phontio i'r lleoliad neu'r ysgol fwyaf priodol.

## Gwybodaeth a chyngor ar gyfer rhieni a gofalwyr

Mae ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol i rieni yn gwella'n raddol. Roedd llawer o ysgolion a lleoliadau'n darparu gweithdai a boreau coffi i gynorthwyo rhieni a gofalwyr â'u dealltwriaeth o agweddau ar ADY neu DDdY.

**Cymhorthfa i deuluoedd**

Datblygwyd Cymhorthfa ADY wythnosol i deuluoedd yn **Ysgol Uwchradd Aberaeron** er mwyn cryfhau'r bartneriaeth ysgol-cartref a sicrhau ymyrraeth gynnar i ddisgyblion ag ADY.

Ers sefydlu'r gymhorthfa, mae'r ddarpariaeth wedi mynd o nerth i nerth ac mae'n adnodd gwerthfawr i ddisgyblion ag ADY a'u teuluoedd. Mae'r rhieni'n deall y weithdrefn gwneud apwyntiadau ac mae gweithwyr proffesiynol eraill yn ymuno weithiau yn ôl y galw. Mae hyn yn sicrhau darpariaeth effeithiol a chydlynus ar gyfer y disgyblion ag ADY.

Yn y gymhorthfa, mae cyfle i rannu gwybodaeth, a datblygwyd "Wal Wybodaeth" at y diben hwn gyda phamffledi sy'n addas ar gyfer teuluoedd sydd ar gael iddynt fynd â nhw adref. Mae Wal Wybodaeth ADY i'r disgyblion y tu allan i'r Gymhorthfa hefyd, a gall disgyblion ag ADY ymweld pan mae'r angen yn codi i dderbyn gwybodaeth (Posteri/Pamffledi sy'n addas ar gyfer disgyblion) am gefnogaeth amrywiol sydd ar gael iddynt.

Yn ail, mae'r gymhorthfa yn lle i drafod pryderon, datrys problemau a llunio cynllun gweithredu, a lluniwyd Ffurflen Ymgynghoriad gan y CydADY, yn gofnod o'r drafodaeth hon. Rhennir yr adroddiad gyda phawb sydd wedi mynychu'r cyfarfod. Mae'r pwyntiau gweithredu yn gallu cynnwys ychwanegiadau i'r Proffil Un Dudalen, atgyfeiriadau pellach, ynghyd â phwyntiau gweithredu i'r teulu a'r disgybl. Mewn rhai achosion, cynhelir ail a thrydydd apwyntiad er mwyn sicrhau bod y monitro'n digwydd.

Er mwyn datblygu'r gefnogaeth deuluol ymhellach, datblygodd yr ysgol weithdai teuluol ar wahanol gyflyrau ADY. Mae'r CydADY wedi datblygu gweithdai darllen/dyslecsia, ADHD a gorbryder mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill, er mwyn sicrhau ansawdd da i'r gefnogaeth a gynigir i deuluoedd yr ysgol.

O ganlyniad i'r gwaith partneriaeth hwn, mae perthnasoedd rhwng yr ysgol a'r teuluoedd ADY yn gadarn, mae'n caniatáu ymyrraeth gynnar i nifer o blant a phobl ifanc ac yn cryfhau llais y disgybl yn y prosesau cydlynu a threfnu darpariaethau amrywiol. Mae hefyd wedi cryfhau partneriaethau amlasiantaethol ac yn hyrwyddo'r cysyniad o weithio fel un tîm cydlynus o gwmpas teuluoedd.

Mae llawer o awdurdodau lleol sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad thematig hwn wedi gwella'u gwaith gyda rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag ADY. Er enghraifft, darparodd bron pob awdurdod lleol wybodaeth ac arweiniad am nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg, a thynnwyd sylw defnyddiol at wasanaethau sy'n gallu helpu a chefnogi. Cynhaliodd ychydig o awdurdodau lleol grwpiau cymorth rheolaidd ar gyfer rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag ADY. Yn yr achosion mwyaf llwyddiannus, roeddent yn sefydlu swyddogion cyswllt â theuluoedd neu weithwyr achos i weithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd. Roedd hyn yn fuddiol o ran cefnogi teuluoedd plant a phobl ifanc ag ADY, ac mae wedi arwain, er enghraifft, at ddealltwriaeth ar y cyd o anghenion a'r DDdY gysylltiedig.

Mae **awdurdod lleol Caerdydd** wedi datblygu trefniadau buddiol ar gyfer cynorthwyo rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag ADY. Pan nodir bod gan blentyn anghenion sy’n dod i’r amlwg, mae’r awdurdod lleol yn pennu gweithiwr pontio yn unigolyn cyswllt cyntaf ar gyfer y teulu. Maent hefyd yn cefnogi rhieni a gofalwyr trwy arweiniad, llinellau cymorth a ‘sesiynau galw i mewn’ defnyddiol ar draws y ddinas a gynhelir gan swyddogion cynhwysiant. Mae’r awdurdod lleol wedi sefydlu chwech o grwpiau rhieni a gofalwyr ar draws y ddinas ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion sy’n dod i’r amlwg neu ADY a nodwyd. Caiff y grwpiau hyn eu cydlynu gan athrawon arbenigol, a bydd cydweithwyr o wasanaethau cymdeithasol neu’r bwrdd iechyd yn aml yn eu mynychu. Mae’r awdurdod lleol yn darparu cymorth a hyfforddiant ar gyfer teuluoedd â phlant sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth, ar y cyd â chydweithwyr iechyd. Mae’r awdurdod yn defnyddio ystod o gyfryngau cymdeithasol a phlatfformau digidol yn llwyddiannus i rannu cymorth, arweiniad, cyfeirio a hyfforddiant ar gyfer rhieni.

## Profiadau rhieni

Yn yr arolwg o rieni, ymatebodd cyfanswm o 121 o rieni i gwestiwn ynglŷn â ph’un a yw ansawdd y cymorth a ddarperir gan yr ysgol yn dda. O’r rheiny, roedd tua hanner (44.6 %) yn cytuno’n gryf, roedd lleiafrif (33.9%) yn cytuno, ychydig (10.7%) ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ychydig iawn (5.8%) yn anghytuno, ac ychydig iawn (5.0%) yn anghytuno’n gryf.

Gofynnom hefyd pa fesurau yr oedd eu hysgol wedi’u rhoi ar waith i gefnogi eu plentyn. Roedd yr ymatebion i’r cwestiwn hwn yn gadarnhaol, ar y cyfan. Dywedodd un rhiant wrthym:

> Maen nhw wedi gwneud popeth! Wedi gwneud yn siŵr fod ei anghenion yn cael eu diwallu bob amser. Mae’n cael ei ollwng yn yr ysgol wrth ddrws gwahanol, felly dydy fy mab ddim yn cael ei lethu, mae’r dosbarth wedi cael ei addasu i weddu i’w anghenion synhwyraidd festibwlar. Mae’r athrawon yn drylwyr iawn, yn deall ac yn wych o ran cyfleu pethau i ni sy’n rhieni.

Dywedodd rhiant arall:

> Mae’r ysgol wedi creu gofod i’m plentyn i ffwrdd o’r ystafell ddosbarth ac mae bod yn y dosbarth yn ei lethu’n ormodol, weithiau. Mae’n gallu aros yn yr ardal annibynnol a pheidio â theimlo’i fod yn cael ei eithrio oddi wrth ei gyfoedion. Ac mae croeso iddo ymuno â nhw ar unrhyw adeg y mae’n barod i wneud hynny.

Fodd bynnag, roedd ychydig o ymatebion negyddol hefyd, yn amlygu rhwystredigaethau rhieni â gohebiaeth wael gan yr ysgol neu athrawon a Chydlynwyr ADY, neu ddiffyg cefnogaeth lwyr.

## Adolygu gwefannau

Roedd bron pob un o’r awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni a gofalwyr am ADY ar eu gwefannau, yn cynnwys pwyntiau cyfeirio a gwybodaeth am gysylltu. Roedd bron pob un o’r awdurdodau, trwy eu dogfennau egwyddorion a

disgwyliadau, yn darparu amlinelliadau defnyddiol a oedd yn disgrifio'r meini prawf ar gyfer CDUau a gynhelir gan ysgolion neu CDUau a gynhelir gan awdurdodau lleol.

Roedd mwyafrif yr ysgolion a'r lleoliadau yn y sampl hefyd yn darparu gwybodaeth ar eu gwefannau am ADY, er enghraifft esbonio'n ofalus i rieni sut gallant gefnogi eu plentyn os oes ganddo ADY, neu os ydynt yn meddwl efallai bod gan eu plentyn ADY. Fodd bynnag, nid oedd llawer o ysgolion a lleoliadau yn darparu gwybodaeth ar eu gwefannau am gefnogaeth neu DDdY ar gyfer disgyblion ag ADY.

### Datrys anghydfod

Yn ein cyfarfodydd ag awdurdodau lleol, maes pellach o arfer effeithiol a nodwyd mewn diwygio ADY yng Nghymru oedd y prosesau cryf ar gyfer atal a datrys anghytundebau, ynghyd â darparu gwasanaethau eirioli annibynnol. Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol wedi datblygu perthnasoedd gweithio buddiol â'r gwasanaethau eirioli annibynnol, er enghraifft SNAP Cymru. Roedd ychydig o awdurdodau lleol wedi sefydlu prosesau a phanelau datrys anghytundeb. O ganlyniad i'r perthnasoedd estynedig rhwng ysgolion, lleoliadau a theuluoedd, dywedodd ychydig o awdurdodau lleol y bu hyn yn fuddiol o ran lleihau anghydfod ynghylch nodi ADY a'r ddarpariaeth, ac arweiniodd at ostyngiad yn nifer yr apeliadau i Dribiwnlys Addysg Cymru (TAC). Fodd bynnag, yn Tribiwnlys Addysg Cymru, Adroddiad Blynyddol 2022-2023, mae'r Barnwr McConnell yn esbonio:

> Unwaith eto, fel y byddech yn ei ddisgwyl, mae cyfanswm yr apeliadau sydd wedi'u cofrestru gan TAC wedi gostwng ychydig. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhieni, plant, pobl ifanc yn ogystal ag Ysgolion, Colegau ac Awdurdodau Lleol yn dal i ddysgu am y broses ADY newydd, a'r ffordd y dylai gael ei rhoi ar waith (tud.1)

Mae'n glir y gallai strategaethau effeithiol sy'n gallu cael eu cymhwyso i bob disgybl hefyd fod yn berthnasol i anghenion dysgu disgyblion ag ADY. Fodd bynnag, nid oedd dealltwriaeth cystal ag y dylai fod ynghylch pa arferion sy'n DDdY, neu'n dod yn DDdY.

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae'r bennod hon yn ystyried effaith diwygio'r ddarpariaeth ADY mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

Un o'r egwyddorion sy'n ategu'r system ADY yw datblygu

> System ddwyieithog lle cymerir pob cam rhesymol i gyflwyno DDdY yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth drwy'r Gymraeg, gan ganiatáu ar gyfer cynyddu DDdY drwy'r Gymraeg dros gyfnod (Llywodraeth Cymru, 2021, tud. 44).

Yn ein hadroddiad thematig diwethaf, cyfeiriom at sylwadau a wnaed gan Gomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn eu hadroddiad Y Gymraeg yn y Gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol (2023). Daethant i'r casgliad canlynol:

> Mae cyfrwng iaith y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn rhan annatod o safon ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth honno. Ar hyn o bryd nid yw'r gyfundrefn ADY yng Nghymru yn adlewyrchu anghenion gwlad ddwyieithog (tud. 3).

Nid yw'r graddau y mae awdurdodau lleol ac ysgolion a lleoliadau yn cynllunio a gweithredu cefnogaeth deg ar gyfer darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg wedi'u datblygu'n ddigonol o hyd.

Dywedodd arweinwyr mewn llawer o ysgolion a lleoliadau wrthym fod disgyblion cyfrwng Cymraeg sydd ag ADY, naill ai'n derbyn cefnogaeth trwy gyfrwng y Saesneg, neu nid oeddent yn derbyn y gefnogaeth lawn sydd ei hangen arnynt. Yn yr arolwg rhieni, ymatebodd cyfanswm o 86 o rieni i gwestiwn ynglŷn â ph'un a oedd eu plentyn wedi symud o ysgol cyfrwng Cymraeg i ysgol cyfrwng Saesneg i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Dywedodd ychydig o rieni wrthym y bu'n rhaid i'w plant symud i ysgolion cyfrwng Saesneg i gefnogi eu hanghenion dysgu ychwanegol.

Dros gyfnod, mae awdurdodau lleol yn gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, roedd lleiafrif o awdurdodau lleol wedi llwyddo i recriwtio ychydig o swyddogion sy'n siarad Cymraeg ar draws ystod o dimau ADY a chynhwysiant. Roedd lleiafrif o awdurdodau lleol wedi cydweithio ag awdurdodau eraill i rannu cymorth cyfrwng Cymraeg, er enghraifft caffael asesiadau gan seicolegwyr addysg sy'n siarad Cymraeg.

Mae o leiaf un siaradwr Cymraeg, fel arfer mwy, yn y rhan fwyaf o dimau cymorth ADY **awdurdod lleol Sir Benfro**. Caiff yr holl ddeunyddiau eu creu yn Gymraeg, er enghraifft deunyddiau hyfforddiant a chyflwyniadau. Mae deunyddiau hyfforddiant ELSA wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg gan yr awdurdod lleol a'u dosbarthu ledled Cymru yn dilyn ceisiadau gan awdurdodau eraill. Mae'r holl hyfforddiant ar gyfer ADY ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi recriwtio therapydd lleferydd ac iaith sy'n siarad Cymraeg sydd hefyd yn gallu hyfforddi athrawon a staff cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg a gyda ffocws ar


strategaethau penodol sy'n gweithio ar gyfer disgyblion sy'n siarad Cymraeg.

## Dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol cyfrwng Cymraeg

Roedd tua hanner yr awdurdodau lleol wedi sefydlu dosbarthiadau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg. At ei gilydd, roedd hyn yn cael ei werthfawrogi gan ysgolion, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd ac wedi dechrau gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fodd bynnag, oherwydd nifer gyfyngedig y darpariaethau cyfrwng Cymraeg, yn rhy aml, nid oedd y dosbarthiadau arbenigol yn bodloni'r DDdY roedd ei hangen ar y disgybl ac yr oedd ganddo hawl i'w chael. Nid oedd staff bob amser yn cael yr hyfforddiant a'r cymorth i ddiwallu anghenion canfyddedig y disgyblion, ac roedd y cymorth a ddarparwyd yn rhy generig. Ymhellach, rydym yn ymwybodol nad yw data a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhan o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn adlewyrchu nifer y dosbarthiadau arbenigol cyfrwng Cymraeg mewn awdurdodau lleol yn gywir ar draws awdurdodau lleol.

**Nifer y dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol fesul 100 o ddisgyblion ag ADY, yn ôl awdurdod lleol a chyfrwng iaith ysgol, 2024**




*Ffynhonnell: Data Cyfrifiad Ysgolion 2024 (CYBLD)*
*Mae'r data hwn yn adlewyrchu ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed.*
*Nid oes dosbarth arbenigol awdurdod lleol yn Ynys Môn, Gwynedd a Sir Ddinbych.*
*Nid oes dosbarth arbenigol awdurdod lleol mewn ysgol cyfrwng Cymraeg ym Mlaenau Gwent, Sir Fynwy, Abertawe, Merthyr Tudful, Caerffili, Sir y Fflint a Bro Morgannwg.*

## Adnoddau cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddysgu ychwanegol

Mae llawer o'r heriau a amlinellir yn yr adroddiad thematig cyntaf ar ADY yn parhau. Er enghraifft, nid yw asesiadau safonedig a phrofion diagnostig a ddefnyddir i asesu ADY ar gael yn rhwydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, mae'r adnoddau dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig. Yn yr achosion mwyaf llwyddiannus prin, mae swyddogion ADY awdurdodau lleol wedi datblygu ystod o adnoddau cyfrwng Cymraeg gwerthfawr i gefnogi medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion a chynnig DDdY cyfrwng Cymraeg.

Ym mis Ebrill 2023, creodd Llywodraeth Cymru gwmni newydd, 'Adnodd' i gomisiynu adnoddau cyfrwng Cymraeg. Nod Adnodd yw sicrhau adnoddau hygyrch a dwyieithog o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o fformatau i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion. Wrth gomisiynu a sicrhau ansawdd adnoddau, bydd Adnodd yn annog crewyr cynnwys i ystyried sut gellir dylunio adnoddau i fod mor hygyrch a chynhwysol ag y bo modd ac osgoi creu rhwystrau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes unrhyw adnoddau wedi cael eu comisiynu gan Adnodd eto. Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y gwaith hwn ar adnoddau i gefnogi disgyblion cyfrwng Cymraeg ag ADY.

I gefnogi plant ag ADY mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir, mae prosiect trochi iaith **Mudiad Meithrin**, sef 'Croesi'r Bont', wedi datblygu offeryn effeithiol i hwyluso asesu cynnydd plant mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae prosiect trochi iaith 'Croesi'r Bont' yn cefnogi ac yn cofnodi'r cynnydd yn natblygiad plant mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu bedair gwaith y flwyddyn.

Nod y weithdrefn asesu iaith ddiweddaraf yw gwella gallu ymarferwyr i gefnogi a chofnodi cynnydd plant ag ADY. Mae'r offeryn asesu wedi'i anelu at asesu camau cynnar y cynnydd mewn cyfathrebu a chyfathrebu di-eiriau fel arwyddo neu wneud synau. Mae hyn yn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu cofnodi cynnydd pob plentyn (yn lleoliadau Mudiad Meithrin sy'n derbyn cymorth trwy Croesi'r Bont) ac yn cynllunio ar gyfer anghenion unigol yn unol â hynny. Yn ychwanegol, mae Croesi'r Bont wedi creu pecyn adnodd o strategaethau cyfathrebu sy'n cefnogi medrau a hyder ymarferwyr wrth weithio gyda phlant ag anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu.




Mae **Sir Gâr** yn awdurdod lleol dwyieithog, a rhoddir yr un statws cyfreithiol a chydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg. Wrth ystyried darpariaeth ar gyfer disgyblion mewn ysgolion dwyieithog neu ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae cytundeb y bydd y ddwy iaith yn cael eu hystyried yn unol ag anghenion y plentyn.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnig darpariaeth arbenigol trwy gyfrwng y Saesneg, y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Yn ddiweddar, mae wedi agor tri dosbarth arbenigol cynradd ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, sy'n cyflwyno darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ac / neu'n ddwyieithog.

Mae cyfran sylweddol o ddisgyblion ag ADY yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr. Mae hyn yn cynnwys disgyblion o gartrefi Cymraeg iaith gyntaf, dwyieithog, di-Gymraeg ac amlieithog. I sicrhau bod yr awdurdod lleol yn nodi proffil iaith ac anghenion plant a phobl ifanc yn glir, mae pob un o'r disgyblion yn cynnal asesiad gwaelodlin i sicrhau bod man cychwyn eu taith ddysgu yn cyd-fynd yn gywir ag anghenion iaith a dysgu'r plentyn. Cynhelir yr asesiad hwn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r awdurdod lleol yn cynnig DDdY trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, gan ddiwallu anghenion iaith disgyblion unigol.

Yn unol â'r hyn sy'n digwydd yn genedlaethol, mae'r awdurdod lleol yn nodi bod mynediad at adnoddau ac asesiadau Cymraeg yn rhwystr parhaus. Fodd bynnag, mae Sir Gâr wedi goresgyn hyn yn llwyddiannus trwy greu adnoddau'n fewnol neu gyfieithu adnoddau i gynorthwyo ysgolion a lleoliadau addysg eraill. Dros flynyddoedd lawer, mae wedi datblygu llyfrgell o adnoddau a dogfennau cyngor / arweiniad i gefnogi ysgolion i gyflwyno darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyflwynir yr holl ddysgu proffesiynol yn ddwyieithog gan yr adran ADY a chynhwysiant. Pan mae gwasanaethau allanol yn cyflwyno hyfforddiant na ellir ei gyflwyno'n ddwyieithog, maent yn darparu gwasanaethau cyfieithu, ac fe gaiff yr holl ddogfennau a sleidiau cysylltiedig eu cyfieithu i'r Gymraeg.

Mae Sir Gâr wedi cynyddu ei dosbarthiadau arbenigol o 38 lle i 62. Ym mwyafrif y lleoliadau arbenigol, mae staff sy'n gallu cynnig cymorth, os oes angen, trwy gyfrwng y Gymraeg neu gellir ystyried ymestyn y cymorth a gynigir trwy gyllid ychwanegol. Nid yw disgyblion yn eu dosbarthiadau arbenigol yn cael eu datgymhwyso o'r Gymraeg; maent yn derbyn dull gwahaniaethol yn canolbwyntio ar y disgybl, yn unol ag addysgu pob pwnc.

### Recriwtio staff

Yn ein hadroddiad diwethaf, Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd (Estyn, 2023), nodom:

> Dywedodd awdurdodau lleol fod recriwtio staff â'r medrau arbenigol perthnasol a sicrhau cymorth gan gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg mewn asiantaethau a gwasanaethau eraill yn her barhaus (tud. 43).

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth a gasglom yn dangos bod y diffygion hyn mewn darpariaeth yn parhau. Wrth ymateb i'r pryderon hyn, mae Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg (2022) Llywodraeth Cymru yn amlygu'r angen i sicrhau gweithlu cyfrwng Cymraeg i gefnogi darpariaeth effeithiol a theg ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'r cynllun yn cynnwys cyfeiriadau at weithgareddau gwerthfawr sydd eisoes ar waith i gefnogi'r datblygiad hwn. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys cwrs Cymraeg ar gyfer cynorthwywyr ystafell ddosbarth fel rhan o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg a datblygu Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu (TALP) cenedlaethol, sy'n cynnwys opsiwn asesu ar gyfer cyflawni statws Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch (CALU) yn Gymraeg a Saesneg, fel ei gilydd. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu 10 o leoedd bob blwyddyn ar raglen Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysgol Prifysgol Caerdydd, ac mae lleiafswm o un lle ar gyfer y rhai sy'n gallu mynd ymlaen i weithio yn Gymraeg wedi iddynt raddio. Ymhellach, disgwylir i raddedigion y cynllun hwn weithio yng Nghymru am o leiaf ddwy flynedd ar ôl graddio.

O ran Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru, gwireddwyd yr amcan i ariannu arweinydd gweithredu cenedlaethol y Gymraeg ar gyfer y sector. Nod y rôl hon yw darparu cyngor, cymorth a her i sectorau wrth roi eu cyfrifoldebau ar waith o dan y Ddeddf yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae hon yn rôl newydd, ac o'r herwydd, mae'n rhy gynnar i werthuso'i heffaith.

### Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau)

Mae Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gofyn i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae is-adran (6) Adran 85 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i gymryd yr holl gamau rhesymol i weithredu ei gynllun cymeradwy. Mae'r arweiniad yn cynghori awdurdodau lleol i

gynnwys saith o ganlyniadau allweddol i yrru ei gynlluniau. Mae canlyniad chwech yn ymwneud â phlant a phobl ifanc ag ADY:

> Cynnydd yn narpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Cynhaliom adolygiad o'r CSCAau cyhoeddedig yn gysylltiedig â chanlyniad chwech, ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn amlinellu cynlluniau pum mlynedd a deg mlynedd clir, gydag adolygiad o'u cynnydd presennol. Yn y rhan fwyaf o achosion, roeddent wedi datblygu targedau priodol, ar y cyfan, i wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY. Er enghraifft, eu nod oedd cyflogi neu secondio swyddogion awdurdodau lleol sy'n gallu darparu cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, cynyddu nifer y dosbarthiadau arbenigol cyfrwng Cymraeg a chydweithio ag awdurdodau lleol eraill i gaffael cymorth arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn eu hadroddiad Y Gymraeg yn y Gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol (2023), mae Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru yn nodi:

> Er bod rhai awdurdodau wedi adrodd eu bod yn gallu darparu yn Gymraeg ar gyfer pob math o ADY, roedd mwyafrif yr awdurdodau yn adrodd am eu diffyg gallu i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer nifer o anghenion. Y patrwm cyffredinol oedd bod gan fwyafrif yr awdurdodau lleol rywfaint o ddarpariaeth gyffredinol cyfrwng Cymraeg. Wrth i anghenion disgyblion fynd yn fwy cymhleth ac yn fwy arbenigol, ymddengys bod gallu'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwanhau'n sylweddol (tud. 3).

Ymhellach, nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol heriau a rhwystrau sylweddol o ran recriwtio a chadw staff sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig yn y gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r timau nam ar y clyw a'r golwg.

### Tystysgrif ôl-raddedig mewn addysg ADY gynradd ym Mhrifysgol Bangor

Ym mis Medi 2024, lansiodd Prifysgol Bangor ei thystysgrif ôl-raddedig mewn addysg ADY. Mae'r rhaglen ddwyieithog wedi'i chynllunio i roi dealltwriaeth i fyfyrwyr o sut mae plant yn dysgu gyda ffocws ar anghenion dysgu ychwanegol. Mae myfyrwyr yn dysgu am ddatblygiad plant 3-11 oed, yn cynnwys disgyblion niwroamrywiol. Mae'r rhaglen astudio hon yn darparu cyfleoedd i ddatblygu cefnogaeth ddwyieithog ADY.

## Arweinyddiaeth effeithiol o ran ADY

Mae'r bennod hon yn archwilio ymagweddau arweinyddiaeth effeithiol o ran ADYTA mewn ysgolion a lleoliadau. Mae hefyd yn ystyried y polisïau a'r diwylliant yn gysylltiedig ag arweinyddiaeth o ran ADY mewn ysgolion a lleoliadau.

### Gweledigaeth ar gyfer ADY

Mewn llawer o ysgolion a lleoliadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn, roedd arweinwyr wedi creu gweledigaeth glir sy'n gosod dyheadau uchel ar gyfer yr holl blant a disgyblion, beth bynnag yw eu galluoedd a'u hanghenion. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, roedd ysgolion a lleoliadau yn hyrwyddo gweledigaeth gynhwysol ac anogol, gyda chymorth personoledig a dysgu ac addysgu o ansawdd uchel i bawb yn ganolog iddi. Sicrhaodd arweinwyr, yn cynnwys llywodraethwyr, yn yr ysgolion a'r lleoliadau hyn, fod pob un o'r staff yn deall eu cyfrifoldeb am ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn yr ysgolion a'r lleoliadau mwyaf effeithiol, roedd Cydlynwyr ADY, athrawon a staff cymorth dysgu yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau bod y weledigaeth yn cael ei gwireddu yn ymarferol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid oedd gweledigaeth ac ethos yr ysgol yn hyrwyddo arfer gynhwysol ac nid oedd yn sicrhau lles, cynnydd a deilliannau plant a phobl ifanc ag ADY yn ddigon da.

### Rôl y CydADY

Mae atebolrwydd y CydADY fel arweinydd ysgol i gyflawni'r swyddogaethau a bennwyd mewn cyfraith yn gyfrifoldeb allweddol a beichus o fewn arweinyddiaeth ysgol. Y CydADY yw'r unigolyn sydd, ar lefel strategol, yn sicrhau bod anghenion pob un o'r disgyblion yn cael eu diwallu. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys cyfrannu at roi cyngor am ddulliau addysgu i ddiwallu anghenion disgyblion unigol a darparu dysgu proffesiynol ar gyfer staff mewn ysgolion neu leoliadau.

Roedd pob un o'r ysgolion a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn yn cydnabod rôl estynedig ac arbenigol y CydADY o dan y Ddeddf ac yn croesawu atebolrwydd cynyddol a chyfrifoldeb strategol y rôl. Mewn llawer o achosion, lle roedd rôl y CydADY yn fwyaf effeithiol, roedd yn rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth, ac yn cyfrannu'n sylweddol at ddarparu ar gyfer disgyblion ag ADY, a'u deilliannau. Er enghraifft, roeddent yn cymryd rôl arweiniol mewn sicrhau a gwerthuso'r ddarpariaeth ddysgu briodol, gan sicrhau ei bod yn diwallu anghenion disgyblion unigol ag ADY.

Fodd bynnag, nid oedd pob un o'r Cydlynwyr ADY yn cael eu cynnwys yn llawn mewn dylanwadu ar gyfeiriad strategol yr ysgol, a gwneud penderfyniadau. Yn yr ysgolion hyn, roedd eu habsenoldeb o drafodaethau allweddol yn cyfyngu ar allu'r ysgol i ddatblygu ymagwedd gydlynol at ADY ar draws pob agwedd ar y cwricwlwm. Pan nad oedd Cydlynwyr ADY yn ymgysylltu'n strategol, roedd arferion hanfodol ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY yn cael eu diystyru, gan arwain at gymorth tameidiog a cholli cyfleoedd i ymestyn addysgu a dysgu ar gyfer y disgyblion hyn.

Ers ein hadroddiad thematig diwethaf ar ADY, roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cryfhau gwaith grwpiau clwstwr sy’n cyfarfod yn rheolaidd i yrru hunanwelliant o ysgol i ysgol a chefnogi datblygiad proffesiynol. Roedd yr awdurdodau lleol hyn yn rhoi cyfleoedd i Gydlynwyr ADY rannu arfer dda gyda Chydlynwyr ADY eraill yn yr awdurdod lleol, er enghraifft trwy fforwm Cydlynwyr ADY. Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd swyddogion yn ymweld ag ysgolion ac yn gweithredu fel ffrindiau beirniadol i awgrymu gwelliannau a ffyrdd ymlaen. Er enghraifft, roeddent yn gweithio’n greadigol ar y cyd i ddadansoddi a datblygu’r DDdY fwyaf priodol i ddiwallu anghenion disgyblion unigol. Pan oedd swyddogion awdurdodau lleol yn nodi bylchau mewn profiad neu wybodaeth, roedd cymorth pwrpasol ar gael gan y timau ADY a chynhwysiant. Roedd ychydig o awdurdodau lleol wedi llunio canllaw defnyddiol ar yr hyn sy’n gwneud CydADY effeithiol, ac yn ei ddefnyddio i gynorthwyo arweinwyr i werthuso’u gwaith yn eu hysgolion. Roeddent yn darparu ystod o hyfforddiant ac arweiniad hynod fuddiol i wella medrau Cydlynwyr ADY newydd. At ei gilydd, mae arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol Cydlynwyr ADY wedi gwella ers cyhoeddi ein hadroddiad thematig diwethaf. Fodd bynnag, ledled Cymru, mae angen ymestyn rôl y CydADY fel arweinydd strategol o hyd i fodloni’r gofynion a amlinellir yn y Ddeddf ADY yn llawn.

Nododd ein hadroddiad thematig blaenorol ar ADY (Estyn 2023) fod Cydlynwyr ADY ysgolion wedi gweld newidiadau sylweddol i’w rôl, nid yn unig mewn cysylltiad â baich gwaith, ond hefyd o ran cyfrifoldeb ac atebolrwydd. Roedd arweinwyr mewn ysgolion ac awdurdodau lleol yn parhau i bryderu am faich gwaith a chyfrifoldeb cynyddol y CydADY. Mae’r Cod ADY (Llywodraeth Cymru, 2021b) yn nodi’n glir:

> Mae’n hanfodol bod gan y CydADY amser ac adnoddau digonol i gyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol, gan gynnwys amser wedi’i neilltuo y tu allan i’r ystafell ddosbarth. (para. 8.5 tud. 72).

Roedd gan lawer o Gydlynwyr ADY rolau arwain ac/neu addysgu eraill yn eu hysgol. Roedd hyn yn lleihau’r amser y gallent ei neilltuo i oruchwylio ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY, a’u cynnydd.

Yn ei adolygiad o gyflog ac amodau gwaith cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (Llywodraeth Cymru, 2024a), dyma oedd argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen i Lywodraeth Cymru:

- Dylai’r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol gael ei benodi’n aelod o Uwch Dîm Arweinyddiaeth y lleoliad er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau gofynnol yn effeithiol.
- Dylai’r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol gael ei dalu yn unol â'i benodiad i Uwch Dîm Rheoli'r lleoliad er mwyn adlewyrchu cyfrifoldebau rheoli'r rôl.
- Dylai'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol gael cynnig pecyn dysgu proffesiynol sy'n briodol i'w rôl, profiad ac anghenion, a dylid neilltuo amser digyswllt i ymgymryd â hyn.
- Dylid ystyried nodi lefel sy'n adlewyrchu'r rôl a ddynodwyd i'r CydADY. Dylai hyn fod ar lefel Uwch Reoli yn y lleoliad a dylai’r gydnabyddiaeth ariannol fod yn gymesur â'r rôl.

Ym mis Medi 2024, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg mewn datganiad ysgrifenedig fod Llywodraeth Cymru yn darparu £5 miliwn i gefnogi'r argymhelliad ynghylch symud Cydlynwyr ADY i'r Ystod Cyflog Arweinyddiaeth. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y bydd angen mwy o waith manwl ar hyn, sy'n parhau.

Codwyd pryderon gan ychydig o awdurdodau lleol am yr heriau a oedd yn wynebu Cydlynwyr ADY mewn ysgolion llai, lle roeddent yn athrawon dosbarth a gallent fod â rolau arwain eraill, hefyd. Roedd hyn, ynghyd â'u hymrwymiadau addysgu ac arwain, yn cael effaith negyddol ar allu Cydlynwyr ADY i werthuso, datblygu a chydlynu'r ddarpariaeth yn llawn ar gyfer disgyblion ag ADY.

Yn ein trafodaethau ag awdurdodau lleol, codwyd pryderon am recriwtio a chadw Cydlynwyr ADY yn barhaus. Er enghraifft, roedd ychydig o Gydlynwyr ADY profiadol wedi dewis gadael y rôl oherwydd y baich gweinyddol cynyddol. Roedd wedi bod yn anodd i ychydig o ysgolion recriwtio Cydlynwyr ADY, o ganlyniad i ofynion canfyddedig y rôl. Ymhellach, o ganlyniad i gyfyngiadau o ran recriwtio staff neu gyfyngiadau o ran y gyllideb, nid oedd digon o gyfleoedd wedi bod i ddatblygu Cydlynwyr ADY yn y dyfodol i feithrin gallu.

Mae **awdurdod lleol Sir Fynwy** yn rhoi arweiniad clir i'w ysgolion am rôl y CydADY. Mae hyn yn cynnwys negeseuon clir fod y rôl yn un strategol, ac o ganlyniad, mae angen rheoli amser i sicrhau bod y CydADY yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol. Ymhellach, mae'r tîm darpariaeth arbenigol ac allymestyn (SPOT) yn cynorthwyo Cydlynwyr ADY i nodi a rhannu arfer effeithiol a chynhwysol ar draws ysgolion trwy waith clwstwr wedi'i ymgorffori. Maent yn darparu arweiniad a chymorth ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gweithredu.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu ystod o gymorth defnyddiol ar gyfer ei Gydlynwyr ADY. Mae hyn yn cynnwys hyfforddi a mentora ar gyfer yr holl Gydlynwyr ADY, a dysgu proffesiynol teilwredig, yn seiliedig ar eu hanghenion unigol. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn darparu llwybr dysgu proffesiynol ar gyfer Cydlynwyr ADY newydd a darpar Gydlynwyr ADY ac yn meithrin gallu ar draws ei ysgolion.

## CydADY clwstwr

Roedd llawer o awdurdodau lleol wedi parhau i ddatblygu rôl CydADY clwstwr neu hyrwyddwyr CDU yn llwyddiannus. Credai swyddogion fod y rôl hon yn hanfodol o ran cefnogi eu gallu i ddatblygu arfer gynhwysol ar draws ysgolion. Ymhellach, mewn llawer o achosion, roedd y dull hwn yn cefnogi datblygiad pwrpasol a buddiol adnoddau cyfrwng Cymraeg o fewn clystyrau. Roedd gan y rhan fwyaf o Gydlynwyr ADY ddealltwriaeth gadarn o'r system ADY ac roeddent yn hyderus yn eu gallu i roi hyn ar waith ar draws ysgolion. Roeddent yn goruchwylio adnoddau ac yn cydlynu darpariaeth yn dda ar draws ysgolion ac wedi llwyddo i gefnogi a chynghori athrawon ar bob agwedd ar ADY.

## Rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar

Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (2021b) yn gosod y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddynodi Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar (10.1):

> ‘Rhaid i bob awdurdod lleol ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir. Gelwir y swyddog dynodedig yn 'Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar' (‘Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar’). Mae Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn rôl strategol a dylai fod dwy agwedd ar y rôl: rôl sy'n wynebu tuag i mewn a thuag allan. Diben y rôl sy'n wynebu tuag i mewn yw bod yn gyfrifol am drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â charfan y Swyddog Arweiniol ADY. Er mwyn cefnogi’r gwaith o arfer y swyddogaethau hynny'n effeithiol, mae'r rôl sy'n wynebu tuag allan yn ymwneud â datblygu a chynnal perthynas effeithiol ag eraill sy'n gweithio gyda charfan Swyddog Arweiniol ADY yr awdurdod lleol. (10.6).’

Yn ei hymateb a gyflwynwyd i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Gweithredu diwygiadau addysg (IER 34 Ymateb gan: Lywodraeth Cymru 2.19), adroddodd Llywodraeth Cymru:

> Mae rôl SAADYBC wedi galluogi bron pob awdurdod lleol i wneud cynnydd o ran gweithredu’r Ddeddf ADY. Mae tystiolaeth anecdotaidd gan Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar wedi amlygu bod gan deuluoedd fwy o hyder yn y system gan fod eu barn yn cael ei hystyried ac maent yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau, gan gynnwys trwy gyfarfodydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae unrhyw rwystredigaethau wedi ymwneud yn bennaf â cham-gyfleu gwybodaeth am y system ADY newydd, gyda’r rhan fwyaf o’r achosion yn cael eu datrys yn gyflym.

Dywedodd awdurdodau lleol fod rôl y SAADYBC wedi cael ei sefydlu’n dda, gyda rolau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir.

Un o’r agweddau allweddol ar rôl SAADYBC fu sefydlu perthnasoedd gweithio ar draws yr holl dimau a gwasanaethau sy’n cefnogi plant o ddiwrnod eu geni hyd nes byddant yn bum mlwydd oed. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o achosion. Er enghraifft, nododd swyddogion fod cydweithio gwell rhwng gwasanaethau gyda chydweithwyr mewn Gwasanaethau Plant, yn enwedig Dechrau’n Deg, gwasanaethau synhwyraidd ac anabledd, ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a darparwyr gofal plant. Nododd ychydig o awdurdodau lleol fod heriau wrth weithio gyda chydweithwyr mewn byrddau iechyd, yn bennaf oherwydd capasiti staff yn y gwasanaethau hyn.

Bron ym mhob achos, teimlai Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar eu bod yn cael eu cefnogi’n dda yn eu rolau gan eu hawdurdod lleol. Roedd llawer ohonynt yn rhan o’r uwch dîm arweinyddiaeth yn yr awdurdod lleol. Nododd bob un o’r rhai a gymerodd ran eu bod o’r farn fod darpariaeth ADY yn y blynyddoedd cynnar yn cael ei deall yn well gan uwch arweinwyr erbyn hyn, o ganlyniad uniongyrchol i’w rôl a’r gwaith y maent wedi’i wneud. Roeddent yn teimlo’u bod yn cael eu

gwerthfawrogi ac yn elwa ar gyfleoedd gwell i gyfrannu at ddatblygiadau strategol, gan sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y Cod ADY ac yn cadw ADY yn y blynyddoedd cynnar yn uchel ar agenda'r Cyngor.

Fodd bynnag, roedd amrywiad yn y rôl ar draws awdurdodau lleol. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y rôl yn un strategol a gweithredol, fel ei gilydd. Mewn ychydig o achosion, roedd y rôl yn un strategol yn unig, gyda thîm o swyddogion yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i leoliadau ac ysgolion nas cynhelir a lleoliadau gofal plant. Nododd llawer o'r lleoliadau y siaradom â nhw y gefnogaeth a'r arweiniad sylweddol a ddarperir gan SAADYBC a'i dîm. Nid oedd ychydig o leoliadau wedi cyfarfod â SAADYBC ac roeddent yn ansicr ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael. Roedd yn ymddangos bod camddealltwriaeth ymhlith darparwyr am y rôl hon, yn enwedig lle roedd Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn fwy strategol a chymorth i leoliadau yn cael ei ddarparu gan dimau eraill y blynyddoedd cynnar.

## Dysgu proffesiynol a meithrin gallu

Mae'r Cod ADY yn amodi:

> Dylai pob ymarferwr addysgu fynd ati i ymgymryd â dysgu proffesiynol yn rheolaidd am ADY, beth bynnag yw eu profiad blaenorol, eu cymwysterau neu eu lleoliad addysg … dylid adnabod gofynion dysgu proffesiynol yn rhan o broses gynllunio'r lleoliad addysg. (1.90)

Yn gyffredinol, ar draws llawer o ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol yng Nghymru, roedd darparu dysgu proffesiynol yn gryfder ac wedi gwella ers yr adroddiad thematig diwethaf. Roedd yn canolbwyntio'n briodol ar gydbwysedd rhwng hyfforddiant clwstwr ac ysgolion unigol. Roedd ychydig o awdurdodau lleol wedi cyflwyno sesiynau galw i mewn wythnosol a gweithdai misol a gynhelir gan athrawon arbenigol a staff therapiwtig. Gallai'r rhain fod yn thematig, er enghraifft wedi'u cymryd o themâu sy'n dod i'r amlwg ac maent ar gael i bartneriaid addysg eu mynychu.

Roedd bron pob awdurdod lleol yn darparu ystod o ddysgu proffesiynol buddiol o ran gweithredu diwygio ADY a datblygu hyder yn y system a'r prosesau. Roedd awdurdodau lleol yn weithgar o ran eu cefnogaeth i ysgolion yn uniongyrchol trwy staff a thrwy ddatblygu ystod o ddeunyddiau arweiniad defnyddiol a sefydlu fforymau ar gyfer rhannu arferion ar y cyd. Yn gyffredinol, ledled Cymru, roedd perthnasoedd rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion a lleoliadau yn ymddangos yn gryf.

Pan roedd cefnogaeth gan awdurdodau lleol yn fwyaf effeithiol, roedd sesiynau cynllunio ac adolygu blynyddol. Yn ystod y sesiynau hyn, roedd ysgolion yn cael eu cynorthwyo i fyfyrio ar eu darpariaeth ADY bresennol, ymestyn darpariaeth a gwella deilliannau. Wedyn, roedd gwybodaeth a gasglwyd o'r sesiynau hyn yn cael ei dadansoddi yn ddiweddarach er mwyn llywio anghenion hyfforddi yn y dyfodol a nodi cyfleoedd i hwyluso a hyrwyddo cefnogaeth rhwng ysgolion.

Dangosodd tystiolaeth o ddarparwyr ac o'n harolygiadau fod awdurdodau lleol wedi gwella ystod ac ansawdd dysgu proffesiynol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY. Ni dderbyniodd unrhyw awdurdodau lleol, ac ychydig iawn o ysgolion, argymhellion yn gysylltiedig â gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn ystod blwyddyn academaidd 2023-2024, na'u deilliannau. Ledled Cymru, roedd arfer

sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei hymgorffori'n gynyddol, ac roedd gwybodaeth ysgolion ac awdurdodau lleol am eu dyletswyddau statudol yn gysylltiedig â'r Ddeddf ADY yn gadarn, ar y cyfan. Un o'r cryfderau nodedig oedd faint o awdurdodau lleol sy'n ymateb i anghenion datblygiad proffesiynol ysgolion a lleoliadau unigol a'r ffocws ar ddileu rhwystrau rhag dysgu.

Roedd swyddogion ar draws llawer o awdurdodau lleol yn casglu ystod o wybodaeth ddefnyddiol i gynllunio ac addasu dysgu proffesiynol. Er enghraifft, roeddent yn gwneud defnydd da o wybodaeth o sesiynau galw i mewn anffurfiol i athrawon a fforymau Cydlynwyr ADY, adborth gan baneli atgyfeirio, cydweithio â grwpiau cyfeirio penaethiaid a sicrhau ansawdd CDUau. O ganlyniad, lle roedd hyn yn fwyaf llwyddiannus, datblygodd swyddogion ystod o ddysgu proffesiynol cyffredinol a phwrpasol i ddiwallu anghenion ysgolion unigol, clystyrau a darparwyr eraill.

Er bod ychydig o awdurdodau lleol yn dechrau gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY, mae'r graddau y caiff y gwaith hwn effaith uniongyrchol ar addysgu yn aneglur. Ar draws y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ein sampl, nid oedd gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion ag ADY wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae **awdurdod lleol Cyngor Sir Penfro** wedi gwerthuso effaith ELSA ar draws ysgolion targedig. Bu swyddogion yn casglu data dros gyfnod o dair blynedd ac yn gwerthuso'r effaith ar les disgyblion ar ôl ymyriadau 6 wythnos. Sylwon nhw fod gwelliannau sylweddol yn iechyd a lles emosiynol disgyblion. Cyhoeddwyd y gwaith ymchwil hwn yn y cyfnodolyn ar gyfer Educational Psychology in Practice theory, research and practice in educational psychology yn ddiweddarach, a'i rannu ar draws y sector.

Mae **awdurdod lleol Abertawe** wedi cynnal gwerthusiadau buddiol ar ôl yr holl ddigwyddiadau a gweithgareddau hyfforddi. Mae hyn wedi eu helpu i deilwra digwyddiadau yn y dyfodol i ddiwallu anghenion clystyrau, ysgolion a lleoliadau addysg unigol. Yn ychwanegol, bu swyddogion yn yr awdurdod lleol yn gweithio gyda phenaethiaid a Chydlynwyr ADY yn ddiweddar i gynllunio digwyddiad 'marchnadle' llwyddiannus am ADY i ddiwallu eu hanghenion dysgu proffesiynol.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio ystod o wybodaeth ddefnyddiol i werthuso effaith dysgu proffesiynol. Er enghraifft, maent yn defnyddio data o bresenoldeb a gwerthusiadau hyfforddiant, ac adborth gan banel a gweithwyr achos ADY. Mewn gwerthusiad diweddar, nododd yr awdurdod lleol fod dysgu proffesiynol wedi cyfrannu'n llwyddiannus at wella ansawdd CDUau.

Roedd llawer o ysgolion a lleoliadau wedi elwa ar ddysgu proffesiynol gwerthfawr am sut gall addysgu a dysgu ddiwallu anghenion pob un o'r disgyblion. Roedd ffocws y dysgu proffesiynol ar addasu addysgu i ddiwallu anghenion disgyblion unigol ac ar greu amgylcheddau addas, gan ddileu unrhyw rwystrau rhag dysgu. Er y bu cydnabyddiaeth fod pob ysgol ar daith ddatblygu tuag at arfer gynhwysol effeithiol, roedd themâu cyffredin ar draws awdurdodau lleol. Roedd y rhain yn cynnwys gwella'r cymorth ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth, datblygu dulliau sy'n ystyriol o drawma a datblygu medrau iaith a chyfathrebu disgyblion.

Nododd bron pob un o'r ysgolion, y lleoliadau a'r awdurdodau lleol fod cefnogi anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion yn her barhaus o ganlyniad i effaith negyddol y pandemig.

### Gwella medrau staff cymorth

Roedd llawer o ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol wedi canolbwyntio'u hyfforddiant ar ddatblygu dealltwriaeth staff cymorth o ADY, yn ogystal â'u pennu i gefnogi disgyblion ag ADY. Yn y rhan fwyaf o achosion, megis dechrau cael ei roi ar waith yr oedd y gwaith hwn. Roedd ystod y dysgu proffesiynol a'r arweiniad yn cael ei werthfawrogi gan ysgolion a lleoliadau.

Caiff pob un o'r staff cymorth yn **Ysgol Bro Lleu** eu hyfforddi mewn strategaethau ac ymyriadau ADY. O ganlyniad, maent yn aml-fedrus ac yn gallu gweithio gydag ystod o ddisgyblion ag ADY. Anaml iawn y mae'r ysgol yn defnyddio staff cymorth a nodwyd ar gyfer gweithio 1:1. Mae hyn yn golygu bod cymorth di-dor os oes aelod staff penodol yn absennol. Mae hefyd yn golygu bod staff cymorth yn teimlo'n werthfawr a medrus.

### Sicrhau ansawdd

Ers yr adolygiad ADY diwethaf, roedd mwyafrif yr ysgolion a'r awdurdodau lleol yn y sampl wedi dechrau cryfhau sicrhau ansawdd prosesau a darpariaeth ADY. Mewn ysgolion lle roedd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn hynod gryf, roedd arweinwyr yn gwerthuso cynnydd disgyblion ag ADY yn ofalus ac yn addasu eu darpariaeth yn unol â hynny. Roedd prosesau sicrhau ansawdd yn cynnwys arsylwadau gwersi llawn, teithiau dysgu, gwrando ar ddisgyblion, craffu ar ddata a gwaith disgyblion a gofyn am farn disgyblion a rhieni. Yn yr ysgolion hyn, roedd mecanweithiau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn adlewyrchu ethos cynhwysol yr ysgol yn dda.

Mae arweinwyr yn **Ysgol Idris Davies** yn monitro effaith darpariaeth ADY yn rheolaidd ac yn addasu cymorth yn ôl yr angen. O ganlyniad i fonitro data derbyn ADY, ac ar ôl effaith y pandemig, sefydlodd arweinwyr grŵp medrau sylfaenol ym Mlwyddyn 7. Mae hyn wedi gwella medrau llythrennedd y rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn llwyddiannus i'r graddau eu bod yn gallu manteisio ar addysg brif ffrwd.

Yn **Ysgol Gynradd Milton**, mae sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd uchel ar gyfer pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn flaenoriaeth o fewn y Cynllun Gwella Ysgol. Yn ychwanegol, mae rheoli perfformiad wedi cefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu ar raddfa ysgol gyfan gyda chyfeiriad penodol at gefnogi disgyblion ag ADY. Dyma yw targed personol pob aelod o staff. Mae staff yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol, yn rhoi cynnig ar y strategaethau hyn gyda disgyblion ag ADY yn eu dosbarthiadau, ac wedyn yn myfyrio ar effaith eu harfer.

Trwy ystod o systemau a chymorth, fel fforymau ADY, panelau, sesiynau galw i mewn anffurfiol ac arweiniad, mae hyrwyddwyr Cydlynwyr ADY a CDU wedi chwarae rhan bwysig mewn sicrhau ansawdd CDUau a'r DDdY a'r mapiau darpariaeth dilynol. Mewn cydweithrediad â swyddogion ADY a chynhwysiant awdurdodau lleol, mae ganddynt rôl allweddol mewn cefnogi Cydlynwyr ADY ac arweinwyr eraill mewn hunanwerthuso ADY, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn teithiau dysgu a phrosesau cymedroli.

Roedd ychydig o awdurdodau lleol yn gweithio'n agos gyda hyrwyddwyr Cydlynwyr ADY a CDU clwstwr i gynorthwyo ysgolion â blaenoriaethau cynllun datblygu yn ymwneud ag ADY ac addysgu cynhwysol. Mewn llawer o achosion, mae awdurdodau lleol wedi cryfhau eu neges i ysgolion a lleoliadau am rôl strategol y CydADY. Yn yr ysgolion hynny lle roedd y CydADY yn aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth, neu ble roedd cydweithio hynod effeithiol rhwng y CydADY a'r uwch dîm arweinyddiaeth, roedd cysyniad addysgu o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion ag ADY yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus mewn cynllunio strategol. Roedd yr integreiddio hwn yn cwmpasu'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol, a threfniadau sicrhau ansawdd.

## Cyllid

Yn yr adroddiad thematig blaenorol ar ADY, nodom fod yr holl leoliadau, ysgolion ac UCDau, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol ledled Cymru wedi elwa ar gyllid grant penodol i weithredu diwygio ADY.

Mae dros £107 miliwn o fuddsoddiad refeniw ychwanegol wedi cefnogi gweithredu ADY er 2020 ac mae dros £170 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf dros y pum mlynedd ddiwethaf wedi gwella cyfleusterau ADY. Mae'r cyllid ychwanegol wedi cael ei groesawu gan awdurdodau lleol ac ysgolion, ar y cyfan.

Gellir gweld y cynnydd mewn buddsoddiad a gwariant yng ngwariant sydd wedi'i gyllidebu awdurdodau lleol ar AAA / ADY, sydd wedi cynyddu £42 miliwn dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn £592 miliwn erbyn hyn.

Gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Ebrill 2024 i Fawrth 2025 | LLYW.CYMRU (2024b)

Yn ein cyfarfodydd gydag awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau, mynegodd llawer ohonynt bryder ynghylch diwedd cyllid ychwanegol ar gyfer ADY gan Lywodraeth Cymru. Nodon nhw fod llawer o wasanaethau allweddol a dysgu proffesiynol yn cael eu cefnogi'n llawn neu'n rhannol gan gyllid grant. Roedd hyn yn cynnwys swyddogion a thimau a oedd yn darparu swyddogaethau statudol neu gefnogaeth uniongyrchol i ysgolion a lleoliadau, a chefnogaeth ar gyfer gweithio mewn clystyrau a phrosesau sicrhau ansawdd. Roedd llawer o ysgolion ac awdurdodau lleol a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn yn pryderu ynglŷn â ph'un a fyddent yn gallu cynnal gwasanaethau ADY presennol heb barhad cyllid ychwanegol ar gyfer ADY, yn enwedig mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd a chynnydd yn y galw am wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY.

## Dulliau a sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o drafodaeth gyda grŵp ffocws o Swyddogion Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (SAADYBC), ac ymweliadau â 28 o ddarparwyr, yn cynnwys lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed ac ysgolion uwchradd. Cynhaliwyd naw o'r rhain trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae wyth o'r ysgolion, yn cynnwys un ysgol cyfrwng Cymraeg, yn cynnal darpariaeth dosbarth arbenigol awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag ADY. Dewiswyd ysgolion a lleoliadau ar sail eu maint, eu math, eu lleoliad daearyddol, a'u cyd-destun economaidd-gymdeithasol.

Defnyddiom dystiolaeth o'n gweithgarwch arolygu parhaus ac o drafodaethau rhwng ein harolygwyr cyswllt awdurdodau lleol a swyddogion awdurdodau lleol, hefyd.

Cynhaliwyd yr holl drafodaethau yn ystod tymor yr haf 2024. Roedd y rhan fwyaf o'r trafodaethau hyn wyneb yn wyneb, gyda grŵp ffocws ar-lein gyda Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar. Mewn ysgolion a lleoliadau, buom yn arsylwi sesiynau addysgu, yn cyfarfod â'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY) ac uwch arweinwyr eraill, yn cynnwys y pennaeth, ac yn cyfweld â staff addysgu a disgyblion. Yn ychwanegol, gofynnom am farn rhieni a gofalwyr am eu profiadau. Mae canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r sampl o ysgolion a lleoliadau yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr adolygiad.

Yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 22 Gorffennaf 2024, edrychom ar wefannau'r 28 darparwr a sampl o wyth awdurdod lleol, i werthuso defnyddioldeb a hygyrchedd y wybodaeth a ddarparwyd. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn. Mae'r darparwyr wedi'u rhestru yn yr adran dulliau a sail y dystiolaeth.

Ymhellach, cyfarfuom â chynrychiolwyr o Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG), Mudiad Meithrin, sef sefydliad sy'n cynnig darpariaeth ddysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant o ddiwrnod eu geni hyd nes byddant yn dair blwydd oed, a Chynghrair Anghenion Dysgu Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA). Mae'r sefydliad hwn yn cynrychioli gwahanol grwpiau o bobl ag anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd. Cyfarfuom hefyd â'r Barnwr McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru.

Hoffai Estyn ddiolch i'r canlynol am gymryd rhan yn yr arolygiad thematig hwn:

| Ysgol neu leoliad nas cynhelir a ariennir | Sector | Awdurdod lleol |
|---|---|---|
| Caban Cegin | Lleoliad nas cynhelir a ariennir | Gwynedd |
| Cylch Meithrin Cynwyd Sant | Lleoliad nas cynhelir a ariennir | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Sefydliad Cyn-ysgol Derw Bach | Lleoliad nas cynhelir a ariennir | Powys |
| Meithrinfa Ddydd Homestead | Lleoliad nas cynhelir a ariennir | Wrecsam |

| | | |
|---|---|---|
| Little Rascals | Lleoliad nas cynhelir a ariennir | Merthyr |
| Cylch chwarae cyn-ysgol Llanfyllin | Lleoliad nas cynhelir a ariennir | Powys |
| Mini Miners | Lleoliad nas cynhelir a ariennir | Caerffili |
| Pentre Pengwins | Lleoliad nas cynhelir a ariennir | Rhondda Cynon Taf |
| | | |
| Ysgol Gynradd Coed y Garn | Cynradd | Blaenau Gwent |
| Ysgol Gynradd Grangetown | Cynradd | Caerdydd |
| Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Trefyclo | Cynradd | Powys |
| Ysgol Gynradd Milton | Cynradd | Casnewydd |
| Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Anne | Cynradd | Wrecsam |
| Ysgol Gynradd Tywyn | Cynradd | Castell-nedd Port Talbot |
| Ysgol Gynradd Gwndy | Cynradd | Sir Fynwy |
| Ysgol Bro Lleu | Cynradd | Gwynedd |
| Ysgol Gynradd Aberaeron | Cynradd | Ceredigion |
| Ysgol Gynradd y Tymbl | Cynradd | Sir Gâr |
| Ysgol y Tywyn | Cynradd | Ynys Môn |
| | | |
| Ysgol Uwchradd Afon Taf | Uwchradd | Merthyr |
| Ysgol Uwchradd Caerdydd | Uwchradd | Caerdydd |
| Emrys ap Iwan | Uwchradd | Conwy |
| Ysgol Uwchradd Whitmore | Uwchradd | Bro Morgannwg |
| Ysgol Gyfun Aberaeron | Uwchradd | Ceredigion |
| Ysgol Llangynwyd | Uwchradd | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ysgol y Moelwyn | Uwchradd | Gwynedd |
| | | |
| Idris Davies | Pob oed | Caerffili |
| Ysgol Gymunedol Porth | Pob oed | Rhondda Cynon Taf |
| | | |
| Trafodaethau awdurdodau lleol gyda Swyddogion Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar ac adolygiad o'r wefan | | |
| Caerdydd | | |
| Sir Gâr | | |
| Ceredigion | | |
| Gwynedd | | |
| Merthyr | | |
| Casnewydd | | |
| Rhondda Cynon Taf | | |
| Abertawe | | |

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **ACU** | Arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn |
| **ADY** | Anghenion dysgu ychwanegol |
| **CDU** | Cynllun datblygu unigol |
| **CSCA** | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg |
| **CYBLD** | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| **CydADY** | Cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol |
| **DAALI** | Dosbarth arbenigol Awdurdod Lleol |
| **DDdY** | Darpariaeth ddysgu ychwanegol |
| **SAADYBC** | Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar |
| **SACDA** | Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg |
| **TAADY** | Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 |
| **Technoleg gynorthwyol** | Cynhyrchion neu systemau sy'n cefnogi ac yn cynorthwyo unigolion i gyflawni swyddogaethau a allai fod yn anodd neu'n amhosibl fel arall |

## Niferoedd – symiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (2023) *What is the role of educational leadership in delivering the Additional Learning Needs reform in Wales?* Ar gael ar-lein: https://nael.cymru/wp-content/uploads/2023/09/Commission-Report-ALNCohort-3-FINAL.pdf (Darllenwyd 23 Medi 2024)

Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru (2023) *Y Gymraeg yn y Gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol*. Ar gael ar-lein: Y Gymraeg yn y Gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol (Darllenwyd 20 Medi 2024)

Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (2024) *Pumed adroddiad.* Ar gael ar-lein: Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru: pumed adroddiad - 2024 (llyw.cymru) (Darllenwyd 24 Medi 2024)

Davies, E. N. ,(2023) Are children and young people with additional learning needs at a systemic disadvantage regarding Welsh language opportunities? *Educational Psychology in Practice*. Ar gael ar-lein: Are children and young people with additional learning needs at a systemic disadvantage regarding We (tandfonline.com) (Darllenwyd 24 Medi 2024)

Estyn (2020) *Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd.* Caerdydd: Estyn. Ar gael ar-lein: Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd – Adroddiad arfer dda (llyw.cymru) (Darllenwyd 20 Medi 2024)

Estyn (2023) *Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd: Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.* Caerdydd: Estyn. Ar gael ar-lein: Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd (llyw.cymru) (Darllenwyd 19 Medi 2024)

Estyn (2024) *Negeseuon cynnar 2023 – 24* Caerdydd. Estyn. Ar gael ar-lein: Adroddiad Blynyddol | Annual Report – Estyn (Darllenwyd 25 Hydref 2024)

Hattie, J. (2023) *Visible Learning: The Sequel: A Synthesis of Over 2,100 Meta-Analyses Relating to Achievement.* Oxford: Routledge

Knight, C. a Crick, T. (2021) Inclusive Education in Wales: Interpreting Discourses of Values and Practice Using Critical Policy Analysis, *ECNU Review of Education,5 (2) 258 - 283*. Ar gael ar-lein: Inclusive Education in Wales: Interpreting Discourses of Values and Practice Using Critical Policy Analysis - Cathryn Knight, Tom Crick, 2022 (sagepub.com) (Darllenwyd 20 Medi 2024)

Llywodraeth Cymru (2018a) *Rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar-lein: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/additional-learning-needs-aln-transformation-programme-v2.pdf (Darllenwyd 20 Medi 2024)

Llywodraeth Cymru (2018b) *Cynnwys a chynorthwyo disgyblion*. Ar gael ar-lein: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/canllawiau-cynnwys-a-chynorthwyo-disgyblion_0.pdf (Darllenwyd 20 Medi 2024)

Llywodraeth Cymru (2021a) *Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg*. Ar gael ar-lein: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf (Darllenwyd 23 Medi 2024)

Llywodraeth Cymru (2021b). *Cod anghenion dysgu ychwanegol Cymru 2021.* Caerdydd. Ar gael ar-lein: Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (gov.wales) (Darllenwyd 20 Medi 2024)

Llywodraeth Cymru (2022a) *Rhaglen trawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol: cwestiynau cyffredin*. Ar gael ar-lein: Rhaglen trawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol: cwestiynau cyffredin | LLYW.CYMRU (Darllenwyd 20 Medi 2024)

Llywodraeth Cymru (2022b) *Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg*. Ar gael ar-lein: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-05/cynllun-y-gweithlu-cymraeg-mewn-addysg.pdf (Darllenwyd 20 Medi 2024)

Llywodraeth Cymru (2023a) *Gwerthusiad o'r System Anghenion Dysgu Ychwanegol*. Ar gael ar-lein: WG34126_Llyfryn Trawsnewid (llyw.cymru) (Darllenwyd 23 Medi 2024)

Llywodraeth Cymru (2023b) *Ymateb a gyflwynwyd i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Gweithredu diwygiadau addysg.* Ar gael ar-lein: IER 34 Llywodraeth Cymru – Anghenion Dysgu Ychwanegol - Mai 2023.pdf (senedd.cymru) (Darllenwyd 23 Medi 2024)

Llywodraeth Cymru (2024a) *Grŵp gorchwyl a gorffen CADY: adroddiad i Weinidog y Gymraeg ac Addysg*. Ar gael ar-lein: https://www.llyw.cymru/grwp-gorchwyl-gorffen-cady-adroddiad-i-weinidog-y-gymraeg-ac-addysg-html (Darllenwyd 23 Medi 2024)

Llywodraeth Cymru (2024b) *Datganiad Ystadegol Cyntaf: Gwariant sydd wedi'i Gyllidebu ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Dysgu Ychwanegol (AAA/ADY): 2024-25.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar-lein: Gwariant sydd wedi'i Gyllidebu ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol (AAA/ADY): 2024-25 (llyw.cymru) (Darllenwyd 2 Hydref 2024)

Llywodraeth Cymru (2024c) *A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?* Ar gael ar-lein: https://business.senedd.wales/documents/s154102/Response%20from%20the%20Welsh%20Government%20-%202%20October%202024.pdf (Darllenwyd 10 Hydref 2024)

Prydain Fawr (2013) *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.* Pennod 6. Llundain: Y Llyfrfa. Ar gael ar-lein: Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (legislation.gov.uk) (Darllenwyd 23 Medi 2024)

Sefydliad Gwaddol Addysgol (2021a) *Special Educational Needs in Mainstream Schools:* Ar gael ar-lein: EEF_Special_Educational_Needs_in_Mainstream_Schools_Guidance_Report.pdf (d2tic4wvo1iusb.cloudfront.net) (Darllenwyd 20 Medi 2024)

Sefydliad Gwaddol Addysgol (2021b) *Making Best Use of Teaching Assistants.* Ar gael ar-lein: TA_Guidance_Report_MakingBestUseOfTeachingAssistants-Printable_2021-11-02-162019_wsqd.pdf (d2tic4wvo1iusb.cloudfront.net) (Darllenwyd 20 Medi 2024)

Senedd Cymru (2024) *Cofnod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (8 Mai 2024).* Ar gael ar-lein: Children, Young People and Education Committee (Darllenwyd 26 Medi 2024)

Silver, L. (2024) Emotional literacy support assistant (ELSA) intervention: medium-term impact on pupils' emotional literacy in one local authority in Wales, *Educational Psychology in Practice,* 40 (3) 303 – 319. Ar gael ar-lein: https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/02667363.2024.2348472 (Darllenwyd 23 Medi 2024)

Stats Cymru (2018-2024) *Data cryno Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn ôl awdurdod lleol (disgyblion rhwng 5 ac 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd).* Ar gael ar-lein: Data cryno Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn ôl awdurdod lleol (disgyblion rhwng 5 ac 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd) (llyw.cymru) (Darllenwyd 23 Medi 2024)

Tribiwnlys Addysg Cymru (2023) *Adroddiad blynyddol.* Ar gael ar-lein: https://tribiwnlysaddysg.llyw.cymru/sites/educationtribunal/files/2024-01/tac-adroddiad-blynyddol-22-23.pdf (Darllenwyd 19 Medi 2024)